



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG46260

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Newid Hinsawdd – Strategaeth ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Gweithredu gan y Cyhoedd (2022-2026)

Rhan A – Strategaeth

Dyddiad cyhoeddi: 20 Hydref 2022

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 14 Rhagfyr 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx

Trosolwg

Strategaeth ddrafft ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd

Hoffem glywed eich barn am strategaeth fydd yn pennu sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i hysbysu, cefnogi ac annog y cyhoedd i weithredu ynghylch y newid yn yr hinsawdd.

Disgrifiad o'r Ymgynghoriad

Mynegwyd ymrwymiad yn [Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2](#) i gynnal cyfnod pwysig o ymgynghori ar y Strategaeth 5 mlynedd newydd ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Gweithredu gan y Cyhoedd ar y Newid yn yr Hinsawdd (2022-2026). Amcan y strategaeth derfynol fydd pennu fframwaith cytûn ac egwyddorion arweiniol ar gyfer:

- Ymgysylltu â'r cyhoedd ar bolisiâu hinsawdd a fydd yn effeithio arnyn nhw ac ar eu cymunedau,
- Helpu pobl i weithredu; a
- Gweithio gyda phartneriaid yn Nhîm Cymru i alluogi a chefnogi pobl i weithredu yn eu hardaloedd a'u rhanbarthau.

Rhennir y Strategaeth yn ddwy:

Rhan A – Y Brif Strategaeth

Rhan B – Cyd-destun, Tystiolaeth a Gwyddor Ymddygiadol

Sut i ymateb

Anfonwch eich sylwadau atom erbyn **14 Rhagfyr 2022**, trwy un o'r dulliau canlynol:

FFURFLEN AR-LEIN

E-BOST

Lawrlwythwch y [ffurflen ymateb](#).

Llenwch y ffurflen a'i hanfon at: newidhinsawdd@llyw.cymru

POST

Lawrlwythwch y [ffurflen ymateb](#).

Llenwch y ffurflen a'i hanfon i:

Is-adran Newid Hinsawdd ac Effeithiolrwydd Ynni
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays 2

Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran Newid Hinsawdd ac Effeithiolrwydd Ynni
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: newidhinsawdd@llyw.cymru

Mae'r [ddogfen hon ar gael yn Saesneg](#) hefyd.

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Rhan A – Strategaeth

	Rhif y Dudalen
Rhagair y Gweinidog	7-8
Yr Her	9-11
Ymgysylltu (llunio'r strategaeth ddrafft)	12-13
Ymgynghori (cydlunio'r strategaeth derfynol)	14-15
Crynodeb o'r Strategaeth	16
Amcanion Gweithredol	17
Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	18-21
Dull Fframwaith – Y 4 Efen	22
Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd	23-24
Strategaeth Gweithredu gan y Cyhoedd	25-27
Ffactorau Llwyddiant Hollbwysig	28-29
Map Trywydd ar gyfer Cyflawni (y 12 mis nesaf)	30-33
Gwerthuso Canlyniadau	34-37

Rhagair y Gweinidog

Nid problem ar gyfer y dyfodol yw newid hinsawdd. Eisoes, mae newidiadau yn ein hinsawdd yn cael effeithiau eang ar yr amgylchedd, ar seilwaith, ar fusnesau, ar gymunedau ac ar bobl ledled Cymru a thrwy'r byd. Nod [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yw ein helpu i greu Cymru y bydd pob un ohonom yn dymuno byw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol. Mae ein hymrwymiad cyfreithiol i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050 yn ategu'r nod hwn.

Fodd bynnag, dim ond trwy gael polisiâu uchelgeisiol a thrwy ymdrech ar y cyd y bydd hyn yn bosibl. Er y bydd mwy o ostyngiadau yn allyriadau'r sector diwydiannol, ynghyd â gweithredu o du'r sector cyhoeddus, yn helpu i gyflawni'r nod hwn, rhaid i bawb yng Nghymru wneud eu rhan. Rhaid i'r llywodraeth, ein cymunedau a'n busnesau weithio gyda'i gilydd trwy ddefnyddio dull "Tîm Cymru" i ymdrin â'n hymddygiadau ynni, teithio a defnyddio. Hefyd, rhaid inni wella gwytnwch ein cymunedau a'n hamgylchedd naturiol a dysgu sut i addasu i'r effeithiau sy'n dod i'n rhan eisoes yn sgil newid diwrthdro yn yr hinsawdd.

Ym mhob achos, mae angen inni fynd ati yn awr i leihau'n sylweddol yr ynni a'r adnoddau naturiol a ddefnyddiwn yn y ffyrdd rydym yn byw yn ein bywydau bob dydd. Er bod y strategaeth ddrafft hon yn anelu at bennu fframwaith ar gyfer sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd dros y 5 mlynedd nesaf i gyflawni'r newid hwn, er mwyn i'r strategaeth fod yn effeithiol rhaid iddi ystyried amharwyr eraill yn yr amgylchedd.

Ar yr adeg y cyhoeddir y drafft hwn ar gyfer ymgynghori yn ei gylch, mae argyfwng costau byw yn effeithio ar bobl ledled y wlad, a rhagwelir y bydd y sefyllfa hon yn gwaethygu dros fisoedd y gaeaf. Mae'r argyfwng economaidd presennol, ynghyd â'r pryder hinsawdd cynyddol (yn enwedig ymhlith pobl ifanc), yn rhoi beichiau ariannol trwm iawn ar aelwydydd ledled Cymru.

Mae'r llywodraeth hon wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r ddwy her gyda'i gilydd, gan alw ar Lywodraeth y DU i wneud ei rhan. Gall lleihau allyriadau trwy addasu ein defnydd o ynni a'n hymddygiadau defnyddio ynni ein helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'n helpu i gynorthwyo pobl trwy'r heriau a gyflwynir gan yr argyfwng economaidd hwn. Er na fydd y newidiadau angenrheidiol yn cael cefnogaeth gan bawb yn syth, ein rôl ni yw gweithio gyda phartneriaid i helpu i oresgyn rhwystrau rhag gweithredu ac esbonio'n onest y manteision a ddaw i ran cymdeithas – o leihau costau aelwydydd i welliannau yn iechyd a llesiant pobl.

Mae'r sefyllfa economaidd a chymdeithasol gyfredol yn tynnu sylw at yr anghydraddoldebau sy'n parhau i fodoli yn ein system gymdeithasol ar hyn o bryd, ac mae'n dangos bod tegwch wrth gyflawni datgarboneiddio yn bwysicach nag erioed. Mae addasu ein ffyrdd o fyw er mwyn delio â'r argyfwng costau byw a'r argyfwng hinsawdd yn esgor ar gyfle gwirioneddol i fynd i'r afael â rhai o'r anghydraddoldebau hyn. Ond er mwyn cyflawni'r pontio teg hwn, gwyddom fod angen inni barhau i wella ein dealltwriaeth o'r modd mae newid hinsawdd yn effeithio ar lesiant pobl, a'r polisiâu a'r camau sy'n angenrheidiol i'w liniaru. Dyna pam y bydd ystyriaethau'n ymwneud â phontio teg yn sylfaen ar gyfer polisiâu ein Llywodraeth er mwyn ymdrin â datgarboneiddio a gwrthsefyll newid hinsawdd ar bob graddfa.

Polisi ar ffurf ddrafft

Ymhellach, mater brys arall yw darparu atebion technoleg a seilwaith ar gyfer rhai o'r rhwystrau allweddol sy'n atal y cyhoedd rhag gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Gwyddom fod aelwydydd ledled Cymru angen offer ac atebion fforddiadwy ar gyfer cyflwyno'r newid, a gwyddom fod rhan helaeth o'r offer a'r atebion hyn y tu hwnt i gyrraedd nifer o aelwydydd yn ariannol. Dyna pam y byddwn yn rhoi blaenoriaeth i arloesi, fel y nodir yn ein Strategaeth Arloesi ddrafft a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Hefyd, rydym yn parhau i gyflwyno ein deddfwriaeth drawsnewidiol ein hunain yn eang ac yn ddiymdroi, gan gynnwys y bobl mae'r broses yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt. Byddwn yn arwain trwy esiampl a byddwn yn rhannu'r cynnydd a wnawn o ran datgarboneiddio ein hystad ac addasu i newid hinsawdd. Hefyd, byddwn yn dysgu ar sail arferion da a welir ymhlith nifer o gymunedau a grwpiau rhanbarthol ledled Cymru, gan fynd ati i ymestyn yr arferion da hynny. Ein nod hefyd yw gweithredu fel llais dibynadwy, gan gyflwyno gwybodaeth glir ynglŷn â'r cydfanteision sy'n perthyn i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd a'r dewisiadau a fydd yn esgor ar effeithiau cadarnhaol neu negyddol o bwys. Eisoës, mae gennym sylfeini cryf y gallwn adeiladu arnynt (rhai a ddeilliodd o'r pandemig Covid-19), a byddwn yn cymhwyso'r pethau a ddysgwyd at ein dull arwain er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng ecolegol.

Ond nid rhywbeth sydd yn nwylo swyddogion y Cabinet a'r Llywodraeth yn unig yw gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Rhaid i bob dinesydd, cymuned, grŵp a busnes yng Nghymru ymwreiddio'r argyfwng hinsawdd yn y ffordd y byddant yn meddwl, yn gweithio, yn chwarae ac yn teithio. Dangosodd trigolion Cymru wytnwch anhygoel yn ystod y pandemig, ac rwyf yn hyderus y gallwn weithio gyda'n gilydd drachefn i fynd i'r afael â'r trawsnewid cadarnhaol sy'n angenrheidiol yn y ffordd mae pob un ohonom yn byw ein bywydau.

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Yr Her

Yr angen i weithredu ar frys

Mae'r dystiolaeth yn glir. Mae angen inni weithredu ar frys mewn perthynas â'r argyfwng hinsawdd. Yn wir, mae'n bosibl mai'r argyfwng hwn yw un o'r heriau mwyaf i'r hil ddynol ei hwynebu erioed. Mae rhai newidiadau yn yr hinsawdd yn naturiol, ac fel arfer maent yn digwydd dros gyfnodau maith iawn. Ond mae gweithgareddau pobl yn cyflymu'r newidiadau. Mae newidiadau y disgwylid iddynt gymryd miloedd o flynyddoedd yn arferol yn digwydd o fewn degawdau. Po hwyaf yr oedi cyn gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, po anoddaf fydd cyflawni'r gweithredu hwnnw. Mae newid hinsawdd yn fater byd-eang sydd angen ymateb byd-eang, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wneud ei rhan a chefnogi ymdrechion rhyngwladol. Rydym yn gweld yr effeithiau eisoes yn sgil canlyniadau ar ein hiechyd, ein hamgylchedd naturiol a'n cymunedau, a hefyd ar y busnesau sy'n ysgogi ein heconomi. Nid bygythiad pell i wledydd a chenhedloedd eraill o amgylch y byd yw newid hinsawdd; mae'n fygythiad gwirioneddol i Gymru.

Mae angen cymryd camau ar frys ym mhob rhan o gymdeithas er mwyn lleihau ein hallyriadau a'n nwyon tŷ gwydr a'n galluogi i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd yn well. Ategir hyn gan waith y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (grŵp annibynnol o arbenigwyr ledled y DU) lle nodir y bydd bron i 60% o'r newidiadau sy'n angenrheidiol i gyflawni sero net angen rhyw fath o newid ymddygiadol a chymdeithasol¹, ac fe'i hategir hefyd gan adroddiad diweddar yr IPCC (y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd)² sy'n galw am gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a gweithredu ymhlith y cyhoedd er mwyn addasu i effeithiau anochel newid hinsawdd.

Er bod cynnydd yn cael ei wneud, ni ellir gwadu bod y dasg sydd o'n blaenau yn fawr. Mae'r strategaeth hon yn pennu'r ffordd y byddwn yn gweithio gydag eraill i gyflawni'r heriau sydd o'n blaenau. Mae hyn yn cynnwys egwyddorion o ran sut y byddwn yn cynnwys cyrff a sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwahanol mewn cymdeithas, a sut y byddwn yn ymgynghori'n uniongyrchol â'r cyhoedd ynghylch polisiâu pwysig yn ymwneud â'r hinsawdd – polisiâu a fydd yn effeithio arnynt hwy. Mae hefyd yn cynnig fframwaith i Lywodraeth Cymru a phartneriaid "Tîm Cymru" (o Lywodraeth leol i fusnesau, grwpiau cymunedol a grwpiau amgylcheddol) ar gyfer gweithio gyda'i gilydd i gynnwys pobl o bob lefel mewn cymdeithas yn y camau angenrheidiol hollbwysig.

Rôl cymdeithas

Er y ceir enghreifftiau lu o gamau a gymerwyd gan bobl a chymunedau ledled Cymru, mae'r ffocws strategol ar leihau allyriadau a pharatoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd wedi bod ar y sector cyhoeddus, ar ddiwydiannau ac ar fusnesau yn bennaf. Ochr yn ochr ag ymdrechion penodol mewn sectorau, fel datgarboneiddio diwydiannau trwm, cynhyrchu ynni a thrafnidiaeth, bydd angen i bobl o bob rhan o gymdeithas ystyried gwneud penderfyniadau cytbwys mewn ymateb i newid hinsawdd er mwyn sicrhau y bydd Cymru yn cyrraedd ei thargedau. Bydd llwyddiant

Polisi ar ffurf ddrafft

yn hyn o beth yn dibynnu ar effeithiau pellgyrhaeddol, ond cadarnhaol, ar y ffordd mae pob un ohonom yn byw ein bywydau bob dydd.

Er bod heriau yn perthyn i drawsnewid ar y raddfa hon, ceir cyfle hefyd i ddatrys rhai o'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymdeithas. Nid yw newid hinsawdd yn parchu ffiniau a gall effeithio ar ein dinasyddion a'n cymunedau tlotaf; felly, rhaid rhoi polisïau a chymau gweithredu ar waith er mwyn sicrhau y bydd yr effeithiau cadarnhaol a negyddol yn cael eu dosbarthu'n deg. Ymhellach, bydd darlunio dyfodol mwy cynaliadwy yn bwysig o ran helpu pobl i ddeall a gwireddu'r manteision y bydd y newidiadau hyn yn esgor arnynt o ran ein hiechyd a'n ffordd o fyw a'r cymunedau rydym yn byw ynddynt, a hefyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mewn nifer o achosion, bydd newidiadau ymddygiadol awtonomaidd (o'r ffordd y teithiwn i'n harferion prynu a defnyddio) yn esgor ar rai costau ariannol, gan arbed arian o dro i dro, a bydd yn hanfodol inni gyfathrebu unrhyw gydfanteision pwysig er mwyn cynyddu gweithredu o du'r cyhoedd – yn enwedig yn ystod yr argyfwng costau byw sydd ohoni.

Hefyd, bydd mynd i'r afael â rhwystrau seilwaith a rhwystrau technolegol yn hanfodol er mwyn galluogi'r cyhoedd i weithredu. Bydd llwyddiant yn hyn o beth yn ddibynnol ar integreiddio syniadau gwyddor ymddygiadol ym mhrosesau penderfynu'r Llywodraeth, ynghyd â sicrhau bod yr atebion yn cael eu seilio ar ddealltwriaeth o'r segmentau targed yn y boblogaeth; sicrhau y cânt eu cydgynhyrchu pan fo modd; a sicrhau yr ymdrinnir â rhwystrau sy'n atal segmentau penodol yn y boblogaeth rhag gweithredu. Yn ôl adroddiad diweddar gan IPSOS³, ar y cyfan mae'r cyhoedd yn gefnogol i ymyriadau'r Llywodraeth ar gyfer mynd i'r afael â newid hinsawdd. Fodd bynnag, mae'r gefnogaeth hon yn gostwng yn sylweddol yn unol â lefel yr effaith mae'r ymyriadau hyn yn debygol o'i chael ar fywydau pobl – yn enwedig o ran cost, hwylustod a newidiadau radical mewn ffyrdd o fyw. Mae hyn yn ategu'r egwyddor a ddisgrifir yn [Cymru Sero Net](#), sef y bydd cynnwys y cyhoedd mewn penderfyniadau yn cynnig sylfaen gryfach ar gyfer newid ymddygiad mewn cymdeithas. Bydd cynnwys pobl yn y penderfyniadau allweddol a fydd yn effeithio arnynt yn gam hollbwysig ar gyfer gwella ein dealltwriaeth fel Llywodraeth o rwystrau rhag gweithredu a datrys problemau allweddol er mwyn sicrhau mai'r peth iawn i'w wneud fydd y peth normal, hawdd, deniadol ac arferol i'w wneud, yn ogystal â'r peth mwyaf cost-effeithiol.

Mae ffactorau ehangach hefyd yn bygwth y llwybr sydd o'n blaenau. Eisoes, mae aelwydydd ledled Cymru yn teimlo effaith yr argyfwng costau byw, gan dynnu'r sylw oddi ar yr argyfwng hinsawdd. Er bod hyn yn esgor ar her economaidd ddifrifol, mae angen mynd i'r afael â gwaith i integreiddio ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng costau byw – er enghraifft trwy gyflymu rhaglenni effeithlonrwydd ynni ar aelwydydd a phontio'n gyflymach at ynni adnewyddadwy ac ymddygiadau teithio mwy gwyrdd. Ochr yn ochr â chymorth gan y Llywodraeth a gweithredu gan ddiwydiannau ar gyfer galluogi'r pontio hwn, ein blaenoriaeth yw gweithio gyda phartneriaid i hysbysu a chynorthwyo'r cyhoedd mewn perthynas â mesurau a chymau y gallant eu cymryd ar gyfer arbed ynni, defnyddio ynni'n fwy effeithlon a lleihau'r pwysau ar y grid, yn enwedig yng nghyd-destun yr argyfwng tanwydd gaeaf sydd o'n blaenau. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, ynghyd â nifer o heriau macro-amgylcheddol eraill rydym yn debygol o'u hwynebu yn ystod y misoedd a'r

blynyddoedd nesaf, mae'n ofynnol cael dull cydgysylltiedig ar gyfer ymdrin â gweithredu gan y Llywodraeth, gan fusnesau a chan gymdeithas.

Wynebu'r her

O gofio maint a chymhlethdod y dasg, ni fydd modd i'r strategaeth hon lwyddo heb gefnogaeth ein partneriaid a heb ddysgu gan eraill. Er bod gweithredu gan y Llywodraeth yn bwysig, ni ellir cyflawni'r her hon mewn gwagle. Bydd ymgysylltu da a mabwysiadu dull cydweithredol gyda phartneriaid cyflawni cenedlaethol, rhanbarthol a lleol eraill yn esgor ar nifer o safbwyntiau gwahanol, a byddant yn allweddol o ran llunio a chyflawni nifer o'r atebion angenrheidiol. Gwyddom y byddant hefyd yn gweithredu fel negeswyr pwysig a dibynadwy o ran cyrraedd ac ymgysylltu â gwahanol grwpiau mewn cymdeithas. Bydd ymgysylltu â chymunedau ac ymgysylltu ar lefel ranbarthol hefyd yn gwbl ganolog i'n dull, gan gynnig cyfle inni wrando ar grwpiau mewn cymdeithas – grwpiau na fyddem, fel arfer, yn ymgysylltu â nhw – er mwyn deall yn well beth sy'n eu rhwystro rhag gweithredu ac yn eu galluogi i weithredu, a dysgu gan eraill. Ymhellach, bydd llwyddiant yn hyn o beth yn ddibynnol ar ddeall mwy am ofidiau a phryderon pobl (yn enwedig ymhlith pobl ifanc yng Nghymru lle ceir mwy a mwy o sôn am bryderon ynghylch effeithiau newid hinsawdd ar eu dyfodol) a darlunio dyfodol hinsawdd cadarnhaol a llawn gobaith i bawb. Rydym wedi ymrwmo i wrando ar eraill a dysgu gan eraill, yn ogystal â chydunio fersiwn derfynol y strategaeth hon ar y cyd â phartneriaid cyflawni a chyda'r grwpiau hynny mewn cymdeithas y mae'r pontio yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt.

Graddfa a chyflymder

Er ei bod yn bwysig inni gymryd amser i sicrhau bod y strategaeth hon yn taro deuddeg, mae adeiladu momentwm hefyd yn bwysig. Ochr yn ochr â'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth a ddisgrifir yn y bennod nesaf, fel Llywodraeth mae ein pwyslais eisoes ar 'ddysgu trwy wneud'. Rydym yn cyflwyno deddfwriaeth, polisiau a rhaglenni uchelgeisiol yn gyflym – rhai'n ymwneud â theithio llesol, ynni a thai, defnydd, gwastraff a'r amgylchedd. Mae'r strategaeth hon yn ymateb i ofynion gan ein rhanddeiliaid a'n partneriaid, sef y bydd cynnwys pobl mewn penderfyniadau yn cynnig sail gryfach ar gyfer newid.

Rhaid i bob un ohonom gymryd camau ar frys i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Bydd angen rhoi ymdrech genedlaethol ar waith ar raddfa na welwyd mohoni erioed o'r blaen. Nod y strategaeth hon yw cefnogi'r siwrnai bwysig sydd o'n blaenau a chydweddu â'r weledigaeth o gael Cymru wyrddach, gryfach a thecach.

C1: A yw'r adran ragarweiniol hon yn nodi'r heriau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan y rhaglen hon, neu a oes unrhyw bwyntiau allweddol ar goll?

¹ Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, Mai 2019; [Adroddiad-Cyngor-Y-Llwybr-i-Gymru-Sero-Net.pdf \(theccc.org.uk\)](#) ² IPCC, Climate Change 2022 – [Impacts, Adaptation and Vulnerability](#) ³ IPSOS/CAST Mehefin 2022 – [Net Zero Living](#)

Ymgysylltu: Llunio'r Strategaeth Ddrafft

Ynglŷn â'r strategaeth

Diben y strategaeth 5 mlynedd hon yw ysgogi dull sy'n canolbwyntio ar bobl – dull a fydd yn annog pobl i gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau a mynd ati i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Mae'n pennu fframwaith ac egwyddorion canllaw ynglŷn â sut y byddwn yn:

- Cynnwys aelodau cymdeithas mewn polisïau hinsawdd a fydd yn effeithio arnynt a'u cymunedau, a chynorthwyo pobl i gymryd camau;
- Gweithio gyda phartneriaid Tîm Cymru gyda gwell dealltwriaeth a mynediad at wahanol grwpiau mewn cymdeithas er mwyn galluogi a chynorthwyo'r cyhoedd i weithredu'n lleol ac yn rhanbarthol.

Mae'n canolbwyntio ar gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu harwain neu yn eu hariannu'n uniongyrchol, yr ysgogiadau sydd ar gael inni, a ble bydd angen inni ddefnyddio ysgogiadau Llywodraeth y DU i gynorthwyo'r cyhoedd i weithredu. Ymhellach, bwriedir i'r strategaeth hon fod yn fframwaith canllaw ar gyfer gwahanol feysydd polisi yn Llywodraeth Cymru, gan sicrhau y bydd ein rhaglenni yn gydgyssylltiedig, yn gydlynol ac yn gyson.

Cwmpas

Mae cwmpas ymddygiadol y strategaeth hon yn ymwneud â mesurau awtonomaidd (cymdeithasol i raddau helaeth) (e.e. teithio llesol, rheoli gwastraff), lle gellir defnyddio technegau ymddygiadol i ymgysylltu a chyfathrebu mewn meysydd lle mae yna fodd a chyfle i'r cyhoedd weithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Mae'r cwmpas yn ymestyn hefyd i fesurau'n ymwneud â chyfuno technoleg a newid ymddygiad mewn cymdeithas (e.e. cerbydau trydan) ac mae'n ymdrin â meysydd mae Llywodraeth Cymru yn cynnig arweiniad arnynt o ran llunio polisïau neu ddarparu arian yn uniongyrchol ar eu cyfer fel y bydd modd elwa i'r eithaf ar y cyfle i'r cyhoedd weithredu.

Cymdeithas (unigolion) yw cwmpas y gynulleidfa, ond mae'r strategaeth hon yn anelu at sicrhau y cydweddir â rhaglenni cyfochrog fel y gellir ennyn cefnogaeth y sector cyhoeddus, diwydiannau a busnesau mewn gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd ac arddangos y cynnydd a wneir yn y sectorau hyn er mwyn gwneud i'r cyhoedd fod yn fwy parod i dderbyn y newidiadau sydd o'n blaenau.

Mae'r strategaeth hon yn ymdrin â'r camau mae'n ofynnol i gymdeithas eu cymryd ar gyfer lleihau newid hinsawdd ac addasu i newid hinsawdd, ond mae hefyd yn ategu'r berthynas bwysig rhwng yr argyfyngau hinsawdd a natur ar y naill law a chyfiawnder cymdeithasol ar y llaw arall.

Y gynulleidfa

Polisi ar ffurf ddrafft

Er bod y strategaeth hon yn canolbwyntio ar rôl cymdeithas (pobl), ac er y bydd yn ddogfen gyhoeddus, ei phrif gynulleidfa yw partneriaid Tîm Cymru – yn cynnwys grwpiau a sefydliadau rydym eisoes yn gweithio gyda nhw ac a allai fod mewn gwell sefyllfa na'r Llywodraeth i ddeall grwpiau targed mewn cymdeithas a gweithredu fel negeswyr dibynadwy ar gyfer y grwpiau hynny. Dyma ein ffordd ni o fynegi sut y byddwn yn mynd ati i ymgysylltu â'r cyhoedd gyda'n gilydd, pa egwyddorion y byddwn yn eu mabwysiadu, a pha dulliau a thystiolaeth y byddwn yn eu datblygu a'u darparu at ein defnydd ni ein hunain ac at ddefnydd ein partneriaid. Er mwyn inni allu cyflawni ein targedau uchelgeisiol, nid digon fydd sicrhau gweithredu o du'r Llywodraeth. Rhaid i bob sector weithredu. Fel llywodraeth, sylweddolwn nad ni yw'r unig rai sy'n ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch newid hinsawdd – ac nad felly y dylai pethau fod. Mae'r un peth yn wir am y strategaeth hon: byddwn yn cynnig arweiniad trwy ddatblygu polisiâu newydd yn gyflym, trwy lunio tystiolaeth i lywio penderfyniadau allweddol, a thrwy gyflwyno gwybodaeth a dulliau; ond y camau a gyflawnir ar y cyd gan ein partneriaid ledled Cymru trwy ddefnyddio'r dulliau a'r adnoddau hyn fydd yn llwyddo i wireddu'r weledigaeth uchelgeisiol a bennir yn y strategaeth hon.

Mae'r strategaeth hon yn ategu ein Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, sef '*Newid yn yr Hinsawdd – Dull Ymgysylltu Llywodraeth Cymru 2022-26*', lle nodir yr hyn y byddwn yn ei wneud i greu momentwm a chryfhau dull Tîm Cymru trwy gydweithio â rhanddeiliaid ar feysydd ehangach yn ymwneud â gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd (y tu hwnt i gymdeithas) – gweler [Cymru Sero Net](#) (Cyllideb Garbon 2). Mae hefyd yn dangos y cynnydd a wneir yn y sector cyhoeddus, mewn busnesau a diwydiannau, yn y byd academaidd ac yn y trydydd sector o ran gwneud i'r cyhoedd fod yn fwy parod i dderbyn y newidiadau sydd o'n blaenau. Ymhellach, mae'r Cynllun Ymgysylltu yn nodi'n fanwl pwy yw'r rhanddeiliaid pwysig hyn ac mae'n esbonio rhagor am ddull Tîm Cymru, y cyfeirir ato drwy gydol y strategaeth hon.

Llunio'r strategaeth ddrafft

Tasg hanfodol fu dwyn ynghyd y gwahanol fathau o randdeiliaid er mwyn pennu'r ffactorau pwysig yr oedd angen eu cynnwys yn y strategaeth hon. Y ddogfen ddrafft hon yw penllanw'r trafodaethau a'r gweithdai a gynhaliwyd gyda nifer o randdeiliaid dros yr wythnosau diwethaf – rhanddeiliaid o Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yn ogystal â mudiadau amgylcheddol a sefydliadau ymgyrchu, rhwydweithiau'r trydydd sector a sefydliadau cymunedol, ymarferwyr newid ymddygiadol, llywodraeth leol, a rhwydweithiau a grwpiau ieuenctid. Wrth ystyried sut i flaenoriaethu'r trafodaethau hyn, aethom ati i ystyried profiad, gwybodaeth a dylanwad gwahanol fathau o randdeiliaid, ynghyd â'u diddordeb posibl mewn cynnal trafodaethau cyn i'r strategaeth gael ei drafftio. Roedd yr ymarfer hwn yn ymarfer ymgysylltu cynnar, penodol ar gyfer ategu iteriad cyntaf y strategaeth hon, ac roedd hefyd yn rhagflaenydd i'r ymgynghoriad agored a'r trafodaethau ehangach angenrheidiol gyda rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd a fydd yn rhan o gam nesaf y broses.

Hoffem ddiolch i'r sefydliadau hynny a gymerodd ran yn y trafodaethau a'r gweithdai ynghylch llunio'r strategaeth drafft hon.

Ymgynghori: Cydlunio'r Strategaeth Derfynol

Ymrwymiad polisi

Cymru Sero Net (Polisi 16 – Ymgynghori ar Strategaeth Ymgysylltu Newid Ymddygiad y Cyhoedd – Haf 2022)

Yn [Cymru Sero Net](#) (Cyllideb Garbon 2), fe wnaethom ymrwymo i gyfnod ymgynghori pwysig er mwyn sicrhau y bydd y strategaeth derfynol yn cael ei chydlunio trwy gynnwys amrywiaeth o gyfranogwyr a sectorau. Mae'r dull ymgynghorol hwn yn cyd-fynd â'n hegwyddor Llywodraeth agored a'n hegwyddor y bydd rôl a gwaith Llywodraeth Cymru yn parhau i wella trwy gydweithio. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r dulliau gweithio sy'n sail i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dim ond trwy weithredu ar y cyd y gallwn sicrhau bod modd i Gymru fynd i'r afael yn effeithiol â newid hinsawdd a symud tuag at ddyfodol cadarn, sero net.

Ymarfer ymgynghori

Mae cyhoeddi'r ddogfen ddrafft hon yn fan cychwyn ar gyfer cam pwysig yn yr ymgynghoriad agored. Y nod yw casglu barn ynglŷn â'r maes polisi hwn tra mae'r strategaeth yn dal i gael ei ffurfio, a chaniatáu i'r cyfranogwyr ymateb. Byddwn yn coladu, yn cyhoeddi ac yn adolygu'r ymatebion a fydd yn deillio o'r ymgynghoriad hwn. Bydd y broses yn dechrau ar 20 Hydref ac yn dod i ben ar 14 Rhagfyr er mwyn rhoi digon o amser i ystyried y sylwadau, ac ymateb iddynt. Byddwn yn mynd ati'n gydwybodol i ystyried yr ymatebion a gyflwynir, a byddwn yn defnyddio'r ymatebion hyn i fireinio neu ddiwygio'r strategaeth os barnwn y bydd hynny'n fuddiol. Bydd y strategaeth derfynol yn cael ei chyhoeddi mewn fformatau amgen, megis print mawr, fersiwn Hawdd ei Darllen ac Iaith Arwyddion Prydain, er mwyn ei gwneud yn fwy hygyrch.

Er mwyn annog cynifer o safbwyntiau â phosibl gan bobl a sefydliadau sy'n hollbwysig i gyflawni'r ymdrech genedlaethol angenrheidiol, bwriadwn gynnal amryfal weithdai a digwyddiadau ymgynghori ochr yn ochr â'r ymgynghoriad agored hwn, gan ofyn i bartneriaid hwyluso'r broses. Rydym yn awyddus iawn i wrando ar leisiau newydd, grwpiau lleiafrifol, pobl ag anghenion hygyrchedd, unigolion nad ydynt fel arfer yn ymhél â thrafodaethau'n ymwneud â'r hinsawdd, plant a phobl ifanc.

Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu cynnal yn fuan, gan gyrraedd eu penllanw mewn rhaglen o ddigwyddiadau ymylol a gynhelir yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru. Bydd y rhaglen ar gyfer eleni yn cael ei chynnal rhwng 21-25 Tachwedd, yn syth ar ôl cynhadledd fyd-eang nesaf y partion ar newid hinsawdd (COP27). Cyhoeddir rhagor o fanylion am Wythnos Hinsawdd Cymru maes o law. Os hoffech gael gwybod am gynlluniau'n ymwneud â'r digwyddiad hwn eleni, cofrestrwch ar gyfer y Bwletin Newid Hinsawdd.

Diben yr ymgynghoriad

Polisi ar ffurf ddrafft

Diben yr ymgynghoriad fydd:

- ategu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth Agored trwy sicrhau ymgynghori a chyfranogi ystyrion.
- ysgogi dull sy'n seiliedig ar bobl, ac annog adborth eang gan ein rhanddeiliaid a chan gymdeithas, yn enwedig felly gan y rhai nad ydynt yn ymhél â thrafodaethau ynghylch yr hinsawdd ar hyn o bryd.
- sicrhau y bydd barn ac arbenigedd eang yn llywio penderfyniadau, yn cynnwys rhoi rôl ddilys i bobl ifanc o ran llunio prosesau'r polisi, ac ysgogi trafodaethau gyda phobl nad ydynt ar hyn o bryd yn ymhél â'r pwnc.
- gweld pa mor barod yw'r cyhoedd i dderbyn a chefnogi'r syniadau polisi a'r dulliau arfaethedig a gynhwysir yn y strategaeth.
- meithrin ymddiriedaeth a dangos y gellir rheoli newid mewn modd teg.
- cynnig gogwydd ar y dystiolaeth gyfredol a'r meysydd mae'r cyhoedd yn awyddus/ddim yn awyddus i'w newid, ynghyd â'r ffordd y dymunant i'r newid hwnnw ddigwydd.

C2: A ydych yn cytuno gyda'r dull a roddwyd ar waith gennym wrth ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch y strategaeth hon?

C3: A oes gennych unrhyw syniadau ynghylch sut y gallem ehangu'r broses ymgynghori, ac a oes gennych ddi-ddordeb mewn trefnu unrhyw ddigwyddiadau ymgynghori gyda'ch rhwydweithiau eich hun yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru?

Ein strategaeth ar dudalen

Ein gweledigaeth.

Ein gweledigaeth yw sicrhau cymdeithas decach a Chymru lanach a all wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, lle byddwn yn deall goblygiadau'r argyfwng hinsawdd a'n cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang a lleol yn ein cymunedau, gan weithio gyda'n gilydd i ysgwyddo cyfrifoldeb ar y cyd dros weithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Ein nodau.

- Dangos bod angen gweithredu ar frys mewn perthynas â newid hinsawdd a gwella dealltwriaeth gyffredinol o newid hinsawdd fel sylfaen ar gyfer llunio camau penodol at y dyfodol.
- Hyrwyddo'r camau a gymerir eisoes gan Weinidogion, Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus ehangach, diwydiannau, cymunedau ac unigolion er mwyn ategu'r newidiadau sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â newid hinsawdd a chyfleu bod angen i bawb wneud eu rhan.
- Gwella ein dealltwriaeth o'r effeithiau disgwylidig y bydd polisïau ac ymyriadau sy'n anelu at annog gweithredu gan gymdeithas yn eu cael ar y bobl waethaf eu byd mewn cymdeithas, a sicrhau na fyddant yn ysgwyddo baich unrhyw newid.
- Ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch amrywiaeth o gamau a dewisiadau (ac effaith y dewisiadau hyn) er mwyn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at fynd i'r afael â newid hinsawdd, a thynnu sylw at y manteision a ddaw i fywydau bob dydd yn eu sgil.
- Integreiddio gwyddor ymddygiadol yn ein polisïau ac ysgogi newid ymddygiadol gyda negeseuon cyfathrebu penodol pan roddir ymyriadau galluogi ar waith.

Ein hamcanion strategol.

Bydd yr amcanion strategol canlynol yn llywio ein dull o ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch newid hinsawdd:

- **Gwybodaeth** – Sicrhau bod pobl ledled Cymru yn meithrin sylfaen wybodaeth well mewn perthynas â newid hinsawdd, o'r cysylltiad sydd rhyngddo â'r ffordd maent yn byw eu bywydau hyd at gredu ei fod yn fater y gallant wneud gwahaniaeth cadarnhaol iddo.
- **Bwriad** – Mewn meysydd lle caiff mesurau awtonomaidd (cymdeithasol, yn bennaf) eu pennu, gweld bod pobl yn credu y dylent gymryd camau, eu bod eisïau cymryd camau a'u bod wedi ymrwymo i gymryd camau, a bod ganddynt yr arferion angenrheidiol ar waith i wneud hynny.
- **Gweithredu** – Cynorthwyo'r cyhoedd trwy gyfrwng ymyriadau polisi er mwyn sicrhau mai'r peth iawn i'w wneud fydd y peth normal, hawdd, deniadol ac arferol i'w wneud, ac mewn meysydd lle mae adnoddau ar waith a phan geir cyfle i wneud hynny, normaleiddio gweithredu mewn aelwydydd, cymunedau a lleoedd ledled Cymru.

Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy

Byddwn yn dilyn '**5 ffordd o weithio**' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ar waith a'n bod yn diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

1. Yn yr hirdymor

Byddwn yn cydbwysu'r angen i greu momentwm cynnar (pan fo modd) trwy gyfrwng polisi a chyfathrebu, a byddwn yn ymdrin â meysydd (pan na allwn wneud hynny) trwy gyfrwng seilwaith, arloesi ac atebion technoleg tymor hwy.

2. Atal

Byddwn yn gweithredu er mwyn atal problemau rhag digwydd neu waethygu trwy feithrin gwytnwch tuag at newid hinsawdd a sicrhau yr ymgorfforir pontio teg yn ein dull, a thrwy sicrhau y bydd ein rhaglen yn cael ei chyflawni mewn modd cynhwysol a hygyrch i bawb.

3. Integreiddio

Ein blaenoriaeth yw defnyddio dull system gyfan o ddatrys problemau a chyflawni atebion polisi cydfanteisiol sy'n ymdrin ag amryfal flaenoriaethau'r Llywodraeth ac sy'n cynnig cymorth i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

4. Cydweithredu

Byddwn yn agored ac yn dryloyw gyda'n partneriaid, gan adeiladu ar ddull Tîm Cymru a chydweithio er mwyn meithrin sylfaen dystiolaeth ac ennyn pobl a chymunedau i weithredu.

5. Cynnwys

Byddwn yn gwrandao ar bobl a chymunedau, ac yn ymgysylltu â nhw, er mwyn sicrhau y cânt eu cynnwys yn y dasg o lunio polisïau a fydd yn effeithio arnynt. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i gynnwys y bobl hynny y bydd y newidiadau'n effeithio fwyaf arnynt, a byddwn yn rhoi rôl ddilys i bobl ifanc o ran siapio eu dyfodol.

Ein Dull Fframwaith 4 Eifen

Gosod Esiamp

Sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn arwain trwy esiampl a rhannu straeon ysbrydoledig gan eraill yn ymwneud â gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Ennyn Brwdfrydedd

Cynnwys pobl yn gynnar mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a chynyddu gwybodaeth am newid hinsawdd a'r dewisiadau sydd ar gael er mwyn sicrhau bod pobl yn wybod yn y maes a'u bod yn cael eu hysbrydoli i weithredu.

Galluogi

Mewn meysydd lle cyfunir technoleg a newid ymddygiad y gymdeithas – canolbwyntio ar oresgyn rhwystrau o ran gallu a chyfle fel y gellir cymryd camau.

Annog

Mewn meysydd sy'n awtonomaidd i raddau helaeth (h.y. lle ceir y gallu a'r cyfle i'r cyhoedd weithredu), defnyddio technegau ymddygiadol er mwyn annog gweithredu.

Ffactorau Llwyddiant Hollbwysig.

Byddwn yn gwrandao ar bartneriaid Tîm Cymru mewn perthynas â'r ffactorau llwyddiant hollbwysig y bydd yn ofynnol eu cysylltu â'r strategaeth hon. Rydym wedi ymrwymo i barhau i gynnal deialog ddwy ffordd ynghylch newid hinsawdd gyda sefydliadau cyflawni allweddol a chydha thrigolion Cymru y bydd ein penderfyniadau ynghylch polisi hinsawdd yn effeithio arnynt.

Amcanion Strategol

Bydd yr amcanion strategol canlynol yn llywio ein dull o ymgysylltu â'r cyhoedd a'n dull o annog gweithredu gan y cyhoedd ar newid hinsawdd.

Gwybodaeth – Sicrhau bod pobl ledled Cymru yn meithrin sylfaen wybodaeth well mewn perthynas â newid hinsawdd, o'r cysylltiad sydd rhyngddo â'r ffordd maent yn byw eu bywydau hyd at gredu ei fod yn fater y gallant wneud gwahaniaeth cadarnhaol iddo.

Bwriad – Mewn meysydd lle caiff mesurau awtonomaidd (cymdeithasol, yn bennaf) eu pennu, gweld bod pobl yn credu y dylent gymryd camau, eu bod eisiau cymryd camau a'u bod wedi ymrwymo i gymryd camau, a bod ganddynt yr arferion angenrheidiol ar waith i wneud hynny.

Gweithredu – Cynorthwyo'r cyhoedd trwy gyfrwng ymyriadau polisi er mwyn sicrhau mai'r peth iawn i'w wneud fydd y peth normal, hawdd, deniadol ac arferol i'w wneud, ac mewn meysydd lle mae adnoddau ar waith a phan geir cyfle i wneud hynny, normaleiddio gweithredu mewn aelwydydd, cymunedau a lleoedd ledled Cymru.

Ceir cydadwaith pwysig rhwng yr amcanion uchod. Er y gall meithrin **gwybodaeth** helpu i oresgyn rhwystrau rhag gweithredu, ceir cyfyngiadau hefyd. Ymhellach, ceir perthynas gymhleth rhwng **bwriad (a ysgogir gan agweddau)** a **gweithredu**. Hyd yn oed os bydd ganddynt wybodaeth ddigonol a dymuniad i gymryd camau, mae llawer o bobl yn methu â chymryd camau amlwg o'r fath (dyma'r 'bwlich rhwng gwybodaeth a gweithredu'). Mae ymddygiad yn rhywbeth cymhleth, a phur anaml y bydd yn dilyn penderfyniadau disgwylidig (e.e. o ran cost, hwylustod a dewis). Er mwyn cyflawni amcanion y strategaeth yn llwyddiannus, bydd angen ystyried tueddiadau gwybyddol a ffactorau cymhellol eraill hefyd. Ein nod fydd gweithio gyda phartneriaid Tîm Cymru, cymunedau a dylanwadwyr ledled Cymru i greu normau cymdeithasol newydd, gan ddefnyddio naratif pwerus a thechnegau ar gyfer rhagamcanu'r dyfodol er mwyn galluogi ein cymdeithas i ddychmygu ffordd wahanol o fyw gyda llai o ffocws ar gaffael a defnyddio a mwy o ffocws ar iechyd a llesiant. Ein bwriad yw gweithio gyda'n gilydd er mwyn annog newid diwylliannol parhaol tuag at gael cymdeithas fwy cynaliadwy sy'n byw o fewn ei chyfran deg o adnoddau'r blaned.

C4: A fu'r 'Strategaeth ar dudalen' yn ddefnyddiol ac a oes unrhyw bwyntiau pwysig ar goll?

C5: A oes gennych unrhyw farn ynglŷn â'r weledigaeth, y nodau a'r amcanion strategol arfaethedig mewn perthynas â'r strategaeth hon? A ydych o'r farn y dylid eu newid? A oes rhai ar goll?

Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Byddwn yn mynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau newid hinsawdd yn unol ag Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a thrwy ddefnyddio'r 5 ffordd o weithio sy'n anelu at ein helpu i weithio'n well gyda'n gilydd.

1. Yn yr hirdymor

Byddwn yn cydbwysu'r angen i greu momentwm cynnar (pan fo modd) trwy gyfrwng polisi a chyfathrebu, a byddwn yn ymdrin â meysydd (pan na allwn wneud hynny) trwy gyfrwng seilwaith, arloesi ac atebion technoleg tymor hwy.

Er ei bod yn bwysig inni gymryd amser i sicrhau bod y strategaeth hon yn taro deuddeg er mwyn sicrhau bod sylfeini cadarn i'w cael ar gyfer ysgogi gweithredu mewn cymdeithas, gwyddom fod adeiladu momentwm hefyd yn bwysig. Er mwyn llwyddo gyda'n targedau newid hinsawdd, rhaid i bawb weithredu ar frys. Po hwyaf yr oedi cyn gweithredu, po ddrytaf ac anoddaf fydd y newidiadau, o bosibl. Dyna pam y byddwn yn parhau i 'ddysgu trwy wneud' ochr yn ochr ag ymgynghori ynghylch y strategaeth hon, a'i mireinio.

Eisoes, caiff polisiâu a rhaglenni eu cyflawni'n gyflym er mwyn cefnogi gweithredu mewn cymdeithas mewn meysydd fel teithio llesol, newidiadau deietegol, arbed ynni, a newidiadau i'n hymddygiadau prynu, defnyddio, gwastraffu ac ailgylchu. Rydym hefyd yn cyflawni ymgyrchoedd cyfathrebu a arweinir gan y Llywodraeth mewn nifer o feysydd awtonomaidd (cymdeithasol, yn bennaf) yn ymwneud â newid ymddygiad. Bydd ymgyrch hinsawdd genedlaethol newydd yn ategu ac yn uno'r ymgyrchoedd hyn, gan bennu cyd-destun nifer o'r camau mae pobl eisoes yn eu cymryd, a chan nodi'r cydfanteision ar lefel unigol ac o ran y modd mae'r camau hyn yn cyfrannu at helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Ond rhaid inni ganolbwyntio hefyd ar ymdrin â rhai o'r meysydd mwy heriol lle ceir rhwystrau ffisegol a rhwystrau seilwaith sylweddol sy'n dal i atal pobl rhag gweithredu e.e. o drafnidiaeth wyrddach i ynni glân ac atebion ar gyfer oeri ein cartrefi yn yr haf. Bydd llwyddiant yn hyn o beth yn dibynnu ar sicrhau mai'r peth iawn i'w wneud fydd y peth normal, hawdd, deniadol ac arferol i'w wneud, yn enwedig o ran y dewisiadau mwyaf eu heffaith. Golyga hyn y bydd angen pennu rhwystrau ffisegol a rhwystrau strwythurol rhag gweithredu ynghyd â rhoi blaenoriaeth i atebion ac ymyriadau polisi newydd. Rhaid i'r rhain ddatgloi'r potensial o ran gwneud i bobl fod eisiau gwneud y peth iawn. Yn ogystal â chael dealltwriaeth fanwl o farn pobl ynglŷn â gweithredu arfaethedig a'r prif rwystrau, megis cost, hwylustod ac argaeledd, rhaid deall beth yw realiti'r ymddygiad cyfredol a'r system sy'n angenrheidiol ar gyfer disodli hyn gyda'r ymddygiad y dymunir ei weld.

Hefyd, rhaid inni ddysgu ar sail llwyddiannau a methiannau blaenorol ac ystyried a fydd y rhain yn cael eu hailadrodd mewn cyd-destunau eraill. Gwyddom eisoes fod trigolion Cymru, yn y rhan fwyaf o achosion, yn dymuno gwneud y peth iawn. Mae ymateb y cyhoedd i ailgylchu yn enghraifft ddefnyddiol. Trwy ei gwneud hi'n haws i bobl ailgylchu (trefnu i gasglu eitemau ailgylchadwy bob wythnos a chyflwyno

canllawiau clir ar ddi-doli gwastraff), mae'r rhan fwyaf o bobl bellach yn derbyn y gwaith didoli manylach y mae awdurdodau yn ei osod ar aelwydydd.

Ein blaenoriaeth fydd parhau i weithio gydag eraill yn ddi-oed (Llywodraeth y DU, diwydiannau a'r byd academaidd, a hefyd yn ein cymunedau ein hunain) er mwyn cyflymu arloesi a thechnoleg a darparu atebion fforddiadwy er mwyn galluogi pobl i weithredu.

2. Atal

Byddwn yn gweithredu er mwyn atal problemau rhag digwydd neu waethygu trwy feithrin gwytnwch tuag at newid hinsawdd a sicrhau yr ymgorfforir pontio teg yn ein dull, a thrwy sicrhau y bydd ein rhaglen yn cael ei chyflawni mewn modd cynhwysol a hygyrch i bawb.

Ni fydd modd i bob rhan o'n cymdeithas fynd i'r afael â'r cyfleoedd sy'n perthyn i bontio tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy. Bydd yr effeithiau'n cael eu teimlo'n wahanol gan ddibynnu ar ble mae pobl yn byw, pa mor hen ydynt, eu rhywedd a pha mor gyfoethog ydynt. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau y bydd darparu'r rhaglen hon yn helpu i gael gwared â rhai anghydraddoldebau a welir ar hyn o bryd yn ein cymdeithas. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu cymorth ac atebion sy'n diwallu anghenion grwpiau unigol, gan sicrhau bod grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio a grwpiau anos eu cyrraedd yn meddu ar y llais a'r grym angenrheidiol i ymgysylltu fel cydraddolion. Hefyd, byddwn yn cyflwyno canllawiau a dulliau ar gyfer datblygu cyfathrebu teilwredig, priodol a hygyrch, gan ddiffinio termau allweddol mewn iaith glir ar gyfer yr asiantaethau a fydd yn gysylltiedig â'r rhaglen.

Ymhellach, yn achos yr ymyriadau a'r rheoliadau a gyflwynwn er mwyn annog cymdeithas i fabwysiadu ymddygiadau a fydd yn ategu llwybr datgarboneiddio Cymru a gwrthsefyll newid hinsawdd, byddant yn cael eu rhoi ar waith mewn modd teg, a bydd cymorth priodol yn cael ei roi i grwpiau sy'n debygol o ddioddef yr effeithiau mwyaf. Y nod wrth wraidd y dull hwn fydd lleihau'r gwahaniaethau rhwng yr allyriadau sy'n gysylltiedig â'r bobl gyfoethocaf yn ein cymdeithas a'r allyriadau sy'n gysylltiedig â'r bobl sy'n weddill. Byddwn yn mabwysiadu'r dull hwn ynghynt mewn perthynas â darparu cymorth i'r rhai a fydd yn yr angen mwyaf yn ystod yr argyfwng costau byw a'r argyfwng tanwydd gaeaf, o ran penderfyniadau'n ymwneud â seilwaith trafniadaeth gyhoeddus, gan sicrhau y bydd yr atebion yn anelu at ddiwallu anghenion grwpiau lleiafrifol a phobl ag anghenion penodol o ran hygyrchedd.

3. Integreiddio

Ein blaenoriaeth yw defnyddio dull system gyfan o ddatrys problemau a chyflawni atebion polisi cydfanteisiol sy'n ymdrin ag amryfal flaenoriaethau'r Llywodraeth ac sy'n cynnig cymorth i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Mae ein [Rhadlen Lywodraethu](#) bresennol yn tanlinellu ymrwymadau Gweinidogion i nifer o feysydd pwysig lle bydd angen cydgysylltu ac integreiddio ar y lefel uchaf ar draws yr holl lywodraeth. Un o'r meysydd hyn yw *"ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn"*. Rydym eisoes wedi sefydlu ein

trefniadau llywodraethu mewnol i ategu'r dull hwn trwy gyfrwng Bwrdd Portffolio Newid Hinsawdd a Grŵp Newid Ymddygiad ac Ymgysylltu trawslywodraethol. Dros yr wythnosau, y misoedd a'r degawd hollbwysig sydd o'n blaenau, bydd angen cydgysylltu ac integreiddio'r dull hwn ar y lefel uchaf ar draws yr holl lywodraeth, a hefyd yn allanol gyda'n partneriaid cyflawni allweddol.

Byddwn yn ymgorffori gwyddor ymddygiadol yn y dasg o lunio polisiâu ar draws meysydd perthnasol y Llywodraeth er mwyn ystyried rhwystrau posibl a chymhelliant i fabwysiadu ymddygiadau newydd, a byddwn yn cydweithio ar draws ein timau sector mewnol i gyflwyno ymyriadau polisi cydgysylltiedig yn ymwneud ag 'ymateb ymhlith defnyddwyr', gan ddefnyddio dulliau ac arbenigedd sy'n bodoli eisoes. Mae [adroddiad diweddar gan yr IPCC](#) yn tynnu sylw at y potensial digyffwrdd sy'n perthyn i opsiynau lliniaru 'ymateb ymhlith defnyddwyr' o ran mabwysiadu seilwaith a thechnoleg, os ystyrir y mater yn gyfannol. Pwysleisir pa mor bwysig yw gweld cydweithio o ran y defnydd a wneir o seilwaith, yr arfer o fabwysiadu technoleg, a newidiadau cymdeithasol-ddiwylliannol ac ymddygiadol, gan sicrhau nad yw polisiâu 'ymateb ymhlith defnyddwyr' yn ddarniog, yn dameidiog nac yn rhy wan.

Ein blaenoriaeth yw defnyddio dull a fydd yn datrys amryfal broblemau mewn perthynas â pholisiâu'r Llywodraeth – dull a fydd yn mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, ond a fydd hefyd yn sicrhau pontio teg a chyfiawn. Bydd llwyddiant yn hyn o beth yn esgor ar gydfanteision sylweddol i gymdeithas – yn cynnwys gwella llesiant, lliniaru llifogydd, goresgyn problemau'n ymwneud ag ansawdd aer a chreu swyddi 'gwyrd', a bydd hefyd yn esgor ar fanteision i natur ac yn creu amwynderau y gall trigolion Cymru a'n hymwelwyr eu mwynhau.

4. Cydweithredu

Byddwn yn agored ac yn dryloyw gyda'n partneriaid, gan adeiladu ar ddull Tîm Cymru a chydweithio er mwyn meithrin sylfaen dystiolaeth ac ennyn pobl a chymunedau i weithredu.

Mae gan bartneriaid Tîm Cymru rôl hollbwysig, ac mae angen inni ymestyn a chryfhau'r cynghrair hwn trwy gyflawni'r strategaeth hon. Mae [Newid yn yr Hinsawdd: Dull Ymgysylltu 2022-26](#) yn nodi pa mor bwysig yw partneriaid Tîm Cymru. Fel Llywodraeth, sylweddolwn nad ni yw'r unig rai sy'n ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch newid hinsawdd – ac nad felly y dylai pethau fod.

Rydym wedi bod yn agored ac yn dryloyw gyda nifer o'r partneriaid hyn yn barod wrth lunio'r strategaeth ddrafft hon. Mae'r strategaeth hon yn bwysig i ni a'n partneriaid gan ei bod yn nodi sut y byddwn yn ymgysylltu â'r cyhoedd gyda'n gilydd, pa egwyddorion y byddwn yn eu mabwysiadu a pha ddulliau a thystiolaeth y byddwn yn eu datblygu ac yn eu defnyddio. Ein nod yw rhoi dull agored a chydweithredol ar waith trwy gyfrwng y broses barhaus o gyflawni'r rhaglen hon. Sylweddolwn fod llawer o'r partneriaid hyn mewn sefyllfa ddelfrydol i'n helpu i ddysgu mwy am gamau effeithiol a gymerir eisoes gan unigolion, cymunedau a grwpiau ledled Cymru, ac i weithredu fel negeswyr dibynadwy ar gyfer grwpiau penodol mewn cymdeithas. Y camau a gymerir ar y cyd gan ein partneriaid ledled Cymru mewn ymateb i'r strategaeth hon fydd yn ein galluogi i wireddu'r weledigaeth uchelgeisiol a bennir yn y strategaeth.

5. Cynnwys

Byddwn yn gwrandio ar bobl a chymunedau, ac yn ymgysylltu â nhw, er mwyn sicrhau y cânt eu cynnwys yn y dasg o lunio polisïau a fydd yn effeithio arnynt. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i gynnwys y bobl hynny y bydd y newidiadau'n effeithio fwyaf arnynt, a byddwn yn rhoi rôl ddilys i bobl ifanc o ran siapio eu dyfodol.

Mae Cymru yn genedl sy'n cynnwys cymunedau cydlynus, a'n blaenoriaeth yw gwrandio ar bobl sy'n aelodau o'r cymunedau hyn a'u grymuso i lunio polisïau pwysig a fydd yn effeithio arnynt. Ein huchelgais yw cyrraedd pob rhan o gymdeithas Cymru, ond ein blaenoriaeth yw cynnwys pobl ifanc er mwyn sicrhau na fydd anghenion cenedlaethau'r presennol a'r ymateb i newid hinsawdd yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Byddwn yn rhoi rôl ddilys i bobl ifanc o ran siapio eu dyfodol, a bydd hyn yn dechrau trwy ganolbwyntio ar ymgysylltu â phobl ifanc ynglŷn â'r dull o ymdrin â'r strategaeth hon.

Byddwn hefyd yn rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu â grwpiau y mae'r llwybr datgarboneiddio'n debygol o effeithio fwyaf arnynt, a hefyd â chymunedau sydd eisoes yn dioddef effeithiau newid hinsawdd. Bydd ein dull yn agored, yn dryloyw, yn gynhwysol ac yn hygyrch. Mae'r ymarfer ymgynghori sy'n gysylltiedig â'r strategaeth ddrafft hon yn gam pwysig cyntaf o ran annog cymdeithas gyfranogol gyda deialog ddwy ffordd yn ymwneud â newid hinsawdd.

C6: Beth yw eich barn ynglŷn â chyd-fynd ag Egwyddor Cynaliadwyedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r 5 ffordd o weithio?

Dull Fframwaith

Byddwn yn defnyddio'r fframwaith 4 elfen er mwyn sicrhau y bydd ein rhaglen ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd/gweithredu gan y cyhoedd yn cynnwys cymysgedd o ymyriadau i ategu rôl cymdeithas yn y dasg o ymdrin â'r argyfwng hinsawdd.

Bydd ein dull o ennyn brwdfrydedd y cyhoedd mewn gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn cael ei seilio ar y canlynol: **Gosod Esiampl, Ennyn Brwdfrydedd, Galluogi, Annog – sef y fframwaith 4 elfen.** Diben y fframwaith yw cynorthwyo i lunio rhaglen ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a chynnig dull o sicrhau yr ystyrir cymysgedd o ymyriadau wrth lunio polisiâu, seilwaith ac atebion cyfathrebu i oresgyn rhwystrau rhag gweithredu:

Gosod Esiampl	Ennyn Brwdfrydedd	
Sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn arwain trwy esiampl a rhannu straeon ysbrydoledig gan eraill yn ymwneud â gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd.	Cynnwys pobl yn gynnar mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a chynyddu gwybodaeth am newid hinsawdd a'r dewisiadau sydd ar gael er mwyn sicrhau bod pobl yn wybodus yn y maes a'u bod yn cael eu hysbrydoli i weithredu.	Ymgysylltu â'r cyhoedd
Galluogi	Annog	
Mewn meysydd lle cyfunir technoleg a newid ymddygiad mewn cymdeithas – canolbwyntio ar oresgyn rhwystrau o ran gallu a chyfle fel y gellir cymryd camau.	Mewn meysydd sy'n awtonomaidd i raddau helaeth (h.y. lle ceir y gallu a'r cyfle i'r cyhoedd weithredu), defnyddio technegau ymddygiadol er mwyn annog gweithredu.	Gweithredu gan y cyhoedd

C7: A ydych o'r farn fod ein dull 'pedair elfen' – sef 'Gosod Esiampl, Ennyn Brwdfrydedd, Annog, Galluogi' – yn cynnig strwythur defnyddiol ar gyfer llunio ein rhaglen ymgysylltu â'r cyhoedd?

Strategaeth Ymgysylltu Â'r Cyhoedd

Gosod Esiampl – Sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn arwain trwy esiampl a rhannu straeon ysbrydoledig gan eraill yn ymwneud â gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Mae'n hanfodol bod trigolion Cymru yn gweld y camau a gymerir ganddynt fel rhan o'r darlun mwy: ni ddylai cymdeithas deimlo ei bod yn mynd i'r afael â newid hinsawdd ar ei phen ei hun. Y tu hwnt i'n rôl o gyflawni polisi hinsawdd newydd a chydgyssylltiedig yn gyflym er mwyn galluogi'r cyhoedd i weithredu, sylweddolwn fod gan Weinidogion a Llywodraeth Cymru (ynghyd â'r sector cyhoeddus ehangach) rôl bwysig o ran arwain trwy esiampl.

Bydd pobl yn disgwyl inni gymryd camau sy'n cyfateb i ddifrifoldeb y materion newid hinsawdd, a gwyddom y bydd diffyg gweithredu o'n rhan ni yn peri i bobl gredu bod difrifoldeb y materion yn cael ei orbwysleisio.

Ochr yn ochr â sefydliadau eraill yn y gwasanaethau cyhoeddus, byddwn yn dangos arweiniad trwy sicrhau bod y camau a gymerwn yn amlwg i bobl, gan rannu enghreifftiau ysbrydoledig a chymhellol o weithredu yn y sector cyhoeddus fel elfen bwysig o'n gweithgareddau cyfathrebu cyhoeddus. Byddwn yn hyrwyddo cynlluniau cyflawni a roddir ar waith gan Lywodraeth Cymru a rhannau eraill o'r sector cyhoeddus mewn perthynas â datgarboneiddio ein hystadau, a hefyd byddwn yn hyrwyddo atebion a gynigir ar gyfer ymdrin â materion lleol yn ymwneud ag ansawdd yr amgylchedd. O ran sicrhau cefnogaeth y cyhoedd, fe fydd hi'n bwysig iawn inni ddangos gweithredu sy'n anelu at wella ein hamgylchedd naturiol (e.e., rheoli sbwriel, darparu manau gwyrdd o ansawdd) ac addasu'r amgylchedd adeiledig at ddibenion gwahanol (e.e. safleoedd tir llwyd ac adeiladau gwag).

Byddwn hefyd yn dysgu yn sgil prosiectau a rhaglenni arloesol sy'n ymwneud â gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, sef prosiectau a rhaglenni sy'n anelu at ennyn gweithwyr y sector cyhoeddus i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd, a byddwn yn ystyried a ellir ailadrodd y cynlluniau peilot hyn ymhlith grwpiau a chymunedau ehangach o fewn y cyhoedd. Er enghraifft, rydym eisoes yn defnyddio gwersi a ddysgwyd yn sgil *'Cynllun Peilot Newid Ymddygiad ar draws Gweithlu'r Sector Cyhoeddus'* a gyflwynwyd gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ar ran Llywodraethau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Byddwn yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r camau a gymerir eisoes gan fusnesau, cymunedau ac unigolion ledled Cymru er mwyn cyfrannu at fynd i'r afael â newid hinsawdd, gan eu helpu i ddeall sut mae'r maes hwn yn berthnasol i'w bywydau nhw. Byddwn yn buddsoddi mwy o arian yn ein hymgyrch addewidion er mwyn amlygu'r ymrwymadau a wneir ledled Cymru i weithredu er budd yr hinsawdd, a byddwn yn defnyddio enghreifftiau o gamau effeithiol a gymerir eisoes gan unigolion, cymunedau a grwpiau er mwyn ysbrydoli pobl i weithredu a dysgu gan eraill.

Ennyn Brwdfrydedd – Cynnwys pobl yn gynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a chynyddu gwybodaeth am newid hinsawdd a'r dewisiadau sydd ar gael er mwyn sicrhau bod pobl yn wybodus yn y maes a'u bod yn cael eu hysbrydoli i weithredu.

Mae ein dull o ymgynghori ynglŷn â'r strategaeth hon yn un enghraifft o'n hymrwymiad i gynnwys aelodau cymdeithas mewn polisiâu hinsawdd a fydd yn effeithio arnynt, ac mae'n dangos y pwysigrwydd a roddwn ar rymuso pobl i gael rôl ddilys yn y broses benderfynu. Y tu hwnt i hyn, a thrwy gydol y gwaith o gyflawni'r rhaglen hon, byddwn yn parhau i annog deialog ddwy ffordd ynghylch newid hinsawdd a byddwn yn parhau i hwyluso trafodaethau ystyrion ynglŷn â'r hinsawdd. Byddwn yn archwilio dulliau ymgynghori eraill, yn enwedig gyda phobl a chynulleidfaoedd y rhagwelir y bydd y pontio'n effeithio fwyaf arnynt, a hefyd gyda'r bobl ifanc hynny y bwriadwn ddiogelu eu dyfodol trwy gyflawni'r strategaeth hon.

Anelwn hefyd at ymgysylltu â negeswyr dibynadwy a chanddynt rôl o ran cyrraedd grwpiau gwahanol mewn cymdeithas er mwyn galluogi a chefnogi gweithredu gan y cyhoedd, yn lleol ac yn rhanbarthol. Bydd ein dull yn cynnwys rhaglen weithredu a arweinir yn genedlaethol ond a weithredir yn lleol. Golyga hyn y byddwn yn gweithio mewn partneriaeth, gan ddarparu adnoddau ar lefel genedlaethol a chan ofyn i bartneriaid Tîm Cymru am gymorth – partneriaid a fydd yn nes at y materion sy'n effeithio ar bobl yn ein rhanbarthau a'n cymunedau.

Byddwn hefyd yn ymgysylltu ag ymarferwyr ac ymchwilwyr newid ymddygiad er mwyn sicrhau ein bod yn rhannu dealltwriaeth gyffredin a methodoleg gadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer cefnogi unrhyw weithredu. Byddwn yn edrych i gyfeiriad y DU a gweddill y byd er mwyn llywio ein dulliau a'n modelau, gan greu diwylliant dysgu lle bydd modd rhannu a lledaenu profiad ac arbenigedd yn eang. Hefyd, byddwn yn parhau i fanteisio ar rwydweithiau ehangach, yn cynnwys sefydliadau anllywodraethol, dylanwadwyr, y cyfryngau a llunwyr barn, er mwyn cynnwys pobl yn y drafodaeth ynglŷn â'r hinsawdd. Byddwn yn ystyried pwy yw'r dylanwadwyr a phwy yw'r grwpiau hynny a allai gael effaith lluosydd ar eraill. Gwyddom na all y Llywodraeth ddarparu'r ateb ar ei phen ei hun, felly bydd yn hanfodol inni ymgysylltu â grwpiau mewn cymdeithas, negeswyr dibynadwy a dylanwadwyr er mwyn meithrin cymorth a goresgyn y bregusrwydd posibl a all fod yn perthyn i'r gefnogaeth a rydd y cyhoedd i bolisiâu sero net.

C8: A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud ynglŷn â'r strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd?

Strategaeth Gweithredu Gan y Cyhoedd

Galluogi – Mewn meysydd lle cyfunir technoleg a newid ymddygiad mewn cymdeithas – canolbwyntio ar oresgyn rhwystrau o ran gallu a chyfle fel y gellir cymryd camau.

Un o'r ffactorau pwysicaf a nodwyd yn gynharach yn y strategaeth hon yw canolbwyntio ar alluogi gweithredu trwy sicrhau mai'r peth iawn i'w wneud fydd y peth normal, hawdd, deniadol ac arferol i'w wneud (a hynny mewn modd fforddiadwy), yn enwedig yn achos y newidiadau anoddaf a dwysaf eu heffaith. Ein blaenoriaeth fydd ymgorffori syniadau ymddygiadol wrth lunio polisïau ledled y Llywodraeth a sicrhau y rhoddir dull system gyfan ar waith er mwyn sicrhau canlyniadau cydfanteisiol mewn gwahanol feysydd polisi. Hefyd, byddwn yn ystyried ffactorau'n ymwneud â thegwch wrth lunio polisïau sero net, gan sicrhau eu bod yn fforddiadwy ac yn deg i bawb a chan ystyried barn y bobl hynny sy'n debygol o ddioddef yr effeithiau mwyaf.

Eisoed, rydym yn cyflawni polisïau yn y meysydd Trafnidiaeth, Tai, Gwaith, Iechyd, Deiet, Cadwraeth Natur a Defnyddio. Byddwn yn parhau i gyflwyno ymyriadau polisi er mwyn datgloi potensial pobl i weithredu, a byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, diwydiannau a'r byd academiaidd i flaenoriaethu'r dasg o ddatblygu arloesedd a thechnoleg i archwilio cyfleoedd a dewisiadau amgen ymarferol fel y gellir lleihau costau i'r cyhoedd trwy'r pontio pwysig hwn.

Y tu hwnt i gyflawni'r polisi hwn, byddwn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r 'bwlch rhwng gwybodaeth a gweithredu', gan sicrhau y bydd pobl ledled Cymru yn meddu ar yr wybodaeth iawn i weithredu yn y meysydd hynny lle cafwyd gwared â rhwystrau o ran gallu a chyfle. Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn addysg yn ein hysgolion, ynghyd â buddsoddi mewn hyfforddiant a meithrin sgiliau er mwyn gwella ymwybyddiaeth o newid hinsawdd a gwella llythrennedd carbon ledled y Llywodraeth ac yn fwy cyffredinol ymhlith ein rhanddeiliaid a'n cymdeithas, a hynny er mwyn gwella dealltwriaeth o'r argyfwng hinsawdd a'r mesurau mae angen eu rhoi ar waith i liniaru effeithiau newid hinsawdd, ac addasu iddynt.

Annog – Mewn meysydd sy'n awtonomaidd i raddau helaeth (h.y. lle ceir y gallu a'r cyfle i'r cyhoedd weithredu), defnyddio technegau ymddygiadol er mwyn annog gweithredu.

Mae cwmpas ymddygiadol y strategaeth hon yn ymwneud yn bennaf â mesurau awtonomaidd (cymdeithasol) lle mae gan bobl y gallu a'r cyfle i weithredu a lle mae'r seilwaith a'r ymyriadau perthnasol eisoes ar waith e.e. mewn meysydd fel teithio llesol a rheoli gwastraff. O gofio bod newidiadau ymddygiadol awtonomaidd yn cynnig opsiwn lliniaru rhad iawn, byddwn yn defnyddio negeseuon cyfathrebu i oresgyn rhwystrau o ran gwybodaeth a rhwystrau seicolegol rhag gweithredu. Byddwn hefyd yn ystyried ffyrdd priodol o ddefnyddio dulliau eraill, yn cynnwys cymelliadau a chynlluniau gwobrwyo, rheoleiddio a chamau gorfodi, apeliadau a

naratifau emosiynol, dulliau annog a saernïo dewis, er mwyn annog y cyhoedd i weithredu.

Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y negeseuon cyfathrebu, byddwn yn defnyddio technegau gwyddor ymddygiadol a byddwn yn buddsoddi mewn ymchwil gymdeithasol er mwyn gwella ein dealltwriaeth o werthoedd a chymhellion pobl a'r modd y gall y gwerthoedd a'r cymhellion hynny newid – bydd hyn oll yn ein helpu i gyfathrebu'n fwy effeithiol. Byddwn yn myfyrio ar wersi a ddysgwyd yn sgil rhaglenni eraill yn ymwneud â newid ymddygiad, a byddwn yn ystyried pa un a fydd y technegau ymddygiadol a ddefnyddir yn cael eu hailadrodd mewn cyd-destunau eraill, ai peidio. Ymhellach, bydd yn ofynnol mynd i'r afael â gwaith dadansoddi manwl a segmentu gwahanol grwpiau yn y boblogaeth er mwyn sicrhau y bydd modd teilwra negeseuon ein hymgyrch genedlaethol yn briodol. Byddwn yn profi'r negeseuon yn drylwyr er mwyn sicrhau eu bod yn taro tant gyda chynulleidfaoedd gwahanol ac yn helpu i oresgyn rhwystrau allweddol rhag gweithredu, fel cost, hwylustod, iechyd ac ansawdd bywyd.

Byddwn yn adeiladu ar weithgareddau cyfathrebu sydd eisoes ar waith trwy'r Llywodraeth a hefyd yn allanol gan ein partneriaid, mewn meysydd fel teithio llesol, bwyta'n iachach, rheoli gwastraff ac ailgylchu, a byddwn yn cyflwyno ymgyrch genedlaethol newydd o dan arweiniad y Llywodraeth. Y nod fydd meithrin gwybodaeth am newid hinsawdd a chyflwyno negeseuon dibynadwy, cadarnhaol, a fydd yn llwyddo i sicrhau undod – negeseuon a fydd yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am y manteision sy'n perthyn i wahanol ddewisiadau'n ymwneud â'r hinsawdd. Byddwn yn gweithio gydag eraill i gyflwyno naratif cyson (naratif a fydd yn deillio o'n hymgyrch genedlaethol a hefyd o negeseuon cyfathrebu partneriaid Tîm Cymru). Heb y cysondeb hwn rhwng gair a gweithred, ni fydd ein cydymdrechion cyfathrebu yn argyhoeddiadol ac ni fydd modd inni ennyn na chynnal yr ymddiriedaeth, a byddwn yn tanseilio ymrwymiad trigolion Cymru i weithredu. Ni fydd y negeseuon yn codi bwganod, ond byddant yn cyfleu difrifoldeb yr hyn a wynebwn, gan fynd ati hefyd i gyflwyno'r cydfanteision sy'n perthyn i newid ar lefel unigolion.

Yn hytrach na dweud wrth bobl beth i'w wneud, byddwn yn defnyddio grym adrodd straeon i gynorthwyo pobl i ddarganfod *sut* i weithredu. Byddwn yn gweithio gyda'r sector diwydiannau creadigol yng Nghymru i greu gweledigaeth ynglŷn â dyfodol pwerus trwy gyfrwng naratifau a straeon hynod gynhyrfiol. Byddwn yn defnyddio'r technegau hyn i brofi damcaniaethau arloesol gyda phobl yng nghyd-destunau'r byd go iawn ac i helpu i ennyn brwdfrydedd gwahanol grwpiau yn ein cymdeithas a chyfleu dyfodol ansicr mewn ffyrdd cadarnhaol, llawn effaith. Hefyd, byddwn yn defnyddio ein treftadaeth gyfoethog i wella ein dealltwriaeth o'r modd mae cymdeithas a'n hamgylcheddau wedi eu trawsnewid eu hunain yn y gorffennol, a byddwn yn gweithio gyda'r cyfryngau a chyda dylanwadwyr i hybu dealltwriaeth o newid hinsawdd.

Er gwaethaf y camau hyn, gwyddom na all negeseuon cyfathrebu gynnig yr 'ateb perffaith'. Rhaid i ymyriadau newid ymddygiad gynnwys pecyn o fesurau a fydd yn gweithio ar sawl lefel: gan dargedu ffactorau ar lefel unigolion, dynameg cymdeithas a dylanwadau seilwaith a macro-gymdeithasol ehangach. Ar hyn o bryd, mae llawer

o bobl yn tueddu i ffafrio camau llai eu heffaith gan fod y rhain, yn aml, yn haws eu rhoi ar waith a chan fod llai o rwystrau rhag gweithredu yn perthyn iddynt. Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein llwybr at sero net, rhaid inni hefyd roi blaenoriaeth i ymdrin â rhwystrau allweddol rhag gweithredu yn ymwneud â seilwaith, technoleg a chost ar gyfer rhai o'r dewisiadau anoddaf (e.e. o osod pypiau gwres mewn cartrefi i droi ein cefn ar geir petrol). Bydd cyfathrebu yn bwysig wrth annog pobl i weithredu, ond dim ond ar ôl ymdrin â rhwystrau eraill y bydd hyn yn llwyddo. Yn ôl pob tebyg, mae ymyriadau yn rhai o'r meysydd hyn yn debygol o ddigwydd yn y tymor hwy, ond rydym yn gweithio'n ddi-oed i bennu rhai atebion a allai esgor ar enillion cyflym.

C9: A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud ynglŷn â'r strategaeth gweithredu gan y cyhoedd?

Ffactorau Llwyddiant Hollbwysig

Rydym yn gwrandao ar bartneriaid Tîm Cymru mewn perthynas â'r ffactorau llwyddiant hollbwysig y mae'n ofynnol eu cysylltu â'r strategaeth hon. Tynnir sylw at rai o'r ffactorau hyn isod. Rydym wedi ymrwymo i barhau i gynnal deialog ddwy ffordd ynghylch newid hinsawdd gyda sefydliadau cyflawni allweddol a hefyd gyda phobl y bydd ein penderfyniadau polisi hinsawdd yn effeithio arnynt.

- ✓ **Strategaeth gyfannol** – rhaid trin gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd fel rhan o strategaeth gyfannol ac fel ateb ar gyfer datgloi heriau eraill fel yr argyfwng hinsawdd.
- ✓ **Parodrwydd i arbrofi** – dim ond os byddwn yn barod i gymryd risgiau, i wneud camgymeriadau ac i ddysgu ar eu sail y bydd arloesi yn ffynnu.
- ✓ **Ysbrydoli gweithredu** – ymgysylltu â chymunedau a grwpiau er mwyn archwilio'r camau lleol sydd ar waith yn llwyddiannus eisoes i fynd i'r afael â newid hinsawdd, gan ysbrydoli eraill i weithredu trwy gyfrwng straeon pwerus a thrwy ddysgu ar sail camau pobl eraill.
- ✓ **Graddfa a chyflymder** – rhaid rhoi atebion ar waith yn gyflym ac ar raddfa fawr.
- ✓ **Dysgu gan wledydd eraill** – edrych i gyfeiriad gwledydd eraill a rhaglenni ymchwil mewn mannau eraill i weld pa wersi y gellir eu dysgu.
- ✓ **Defnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol** – canolbwyntio ar gyd-ddatblygu a chydgyflawni, gan weithio gyda phobl i bennu ble a pha dulliau gweithio a all esgor ar yr effaith fwyaf a chanolbwyntio ein hadnoddau ar y cyfleoedd hyn.
- ✓ **Defnyddio tystiolaeth i helpu i lywio penderfyniadau a dulliau** – manteisio ar ymchwil gymdeithasol er mwyn gwella ein dealltwriaeth o gymhellion a rhwystrau rhag gweithredu.
- ✓ **Defnyddio gwyddor ymddygiadol** – fel elfen ganolog o ran llywio'r ymyriadau iawn ar yr amser iawn yn y lleoedd iawn.
- ✓ **Ymdrin â rhwystrau rhag gweithredu** – rhoi dull system gyfan ar waith ar gyfer mynd i'r afael â rhwystrau seilwaith a rhwystrau technolegol er mwyn galluogi pobl i weithredu (sichrau mai'r 'peth iawn i'w wneud fydd y peth rhwyddaf i'w wneud ar gyfer y cyhoedd' a sichrau bod y dewisiadau'n fforddiadwy).
- ✓ **'Moron a ffyn'** – defnyddio cymhellion a rhoi cymorth i bobl sy'n dymuno gweithredu, a darparu ymyriadau polisi er mwyn sichrau y bydd pob rhan o gymdeithas yn gweithredu ac y caiff effeithiau'r newid eu dosbarthu'n gyfartal.

- ✓ **Addysg a sgiliau** – buddsoddi mewn addysg a sgiliau a goresgyn rhwystrau anweledig 'y nenfwd gwyrdd' sy'n atal cynwysoldeb a chyfleoedd i bobl gamu ymlaen gyda'u gyrfaedd mewn swyddi gwyrdd.
- ✓ **Eglurder o ran dewisiadau** – cynnig eglurder i bobl ynglŷn â dewisiadau ac effaith gwahanol ddewisiadau.
- ✓ **Cyfleu negeseuon cyfathrebu cydlynol ac ysgogol** – rhoi blaenoriaeth i ymgyrch genedlaethol yn ymwneud â newid hinsawdd er mwyn pwysleisio bod angen gweithredu ar frys mewn perthynas â newid hinsawdd.
- ✓ **Defnyddio'r negeswyr iawn** – cydnabod cyrhaeddiad rhanddeiliaid, grym cyfoedion a dylanwadwyr, a didueddrwydd negeswyr.
- ✓ **Herio chamwybodaeth** – cydnabod heriau o ran cyfathrebu a'r rhwystrau sy'n wynebu cymdeithas o du gwyrddgalchu anrheoledig a chamwybodaeth.
- ✓ **Ymgysylltu â chynulleidfaedd newydd** – cyrraedd cynulleidfaedd newydd ac ymgysylltu â nhw, yn hytrach na chanolbwyntio ar weithgareddau sy'n darparu ar gyfer y rhai sydd eisoes yn frwd dros y maes.
- ✓ **Ymgysylltu a chyflawni'n lleol** – sicrhau y ceir rhaglen a gaiff ei harwain yn genedlaethol, sef rhaglen a fydd yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu a chyflawni'n lleol. Bydd ymgysylltu da yn esgor ar nifer o wahanol safbwyntiau. Gwnewch yn siŵr y bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â phob sector mewn cymdeithas, gan ddefnyddio rhwydweithiau lleol a rhanbarthol sy'n bodoli eisoes.
- ✓ **Rhaid i'r sector cyhoeddus, ynghyd â diwydiannau a busnesau, arwain trwy esiampl** – ni ddylai cymdeithas deimlo ei bod yn mynd i'r afael â newid hinsawdd ar ei phen ei hun.
- ✓ **Diwydiannau a busnesau** – creu mwy o undod rhwng y camau a gymerir gan gymdeithas a'r camau a gymerir gan fusnesau.
- ✓ **Myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd yn sgil rhaglenni eraill yn ymwneud â Newid Ymddygiad** – yn cynnwys llwyddiannau a methiannau, a pha un a allai ysgogiadau tebyg gael eu hailadrodd mewn meysydd eraill.
- ✓ **Canlyniadau mesuradwy ac ystyrion** – sicrhau y ceir cysylltiad clir rhwng camau a gymerir gan gymdeithas a llwybr datgarboneiddio Cymru er mwyn i bobl allu deall effaith eu camau ar newid hinsawdd.

C10: Yn eich barn chi, a ydym wedi hepgor ffactorau llwyddiant hollbwysig, sef ffactorau nad ydym yn ymdrin â nhw mewn mannau eraill yn y strategaeth ddrafft hon?

Map Trywydd Ar Gyfer Cyflawni

Mae'r adran hon yn nodi rhai o'r gweithgareddau a'r mentrau a fydd yn cyfrannu at gyrraedd 3 amcan strategol y strategaeth hon, a hefyd nodir pa rai sydd eisoes ar waith. Y nod yw cynnig braslun o'r map trywydd cyflawni dros y 12 mis nesaf a thra bydd cynlluniau cyflawni cenedlaethol a lleol mwy manwl yn cael eu llunio ar y cyd â phartneriaid Tîm Cymru. Trefnir y gweithgareddau yn ôl ein fframwaith 4 elfen (Gosod Esiampl, Ennyn Brwdfrydedd, Galluogi ac Annog).

Gosod Esiampl

Addewidion.

Byddwn yn rhoi bywyd newydd i'r [ymgyrch addewidion hinsawdd](#), sef ymgyrch sy'n anelu at ysgogi gweithredu gan y Llywodraeth, a hefyd gan fusnesau, cymunedau ac unigolion, er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Byddwn yn gwneud yn fawr o Wythnos Hinsawdd Cymru (21-25 Tachwedd) fel cyfle i rannu addewidion a wnaed eisoes ac i ysbrydoli pobl ledled Cymru i ymrwymo i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Bydd y gweithgarwch hwn yn gosod y sylfeini ar gyfer ymgyrch newid hinsawdd genedlaethol a roddir ar waith ddechrau 2023.

Astudiaethau achos.

Ar ffurf astudiaethau achos, byddwn yn rhannu enghreifftiau o gamau effeithiol a gymerir yn barod gan unigolion, cymunedau a grwpiau er mwyn ysbrydoli pobl i weithredu ac er mwyn iddynt allu dysgu gan eraill. Bydd hyn yn cynnwys yr astudiaethau achos a gynhwysir yn [Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net](#) lle ymdrinnir ag arwain, cydweithredu, arloesi a thechnoleg ar draws meysydd fel Cynhyrchu Gwres, Trafnidiaeth, Adeiladau Preswyl, Diwydiannau a Busnesau, y Sector Cyhoeddus, Amaethyddiaeth, Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth, a Gwastraff. Byddwn hefyd yn arddangos mwy na 100 o astudiaethau achos a gyhoeddwyd ar [carboncopy.eco](#) lle sonnir am weithredu ysbrydoledig a wnaed ar lefel leol a chymunedol ledled Cymru. Hefyd, byddwn yn canolbwyntio ar gasglu astudiaethau achos newydd yn sôn am weithredu ar lefel unigolion er mwyn ategu ein hymgyrch newid hinsawdd genedlaethol.

Ennyn Brwdfrydedd

Ymgynghori ynglŷn â'r strategaeth hon.

Yn [Cymru Sero Net](#) (Cyllideb Garbon 2), fe wnaethom ymrwymo i ymgynghori ynglŷn â'r strategaeth hon. Mae'r dull ymgynghorol hwn yn cyd-fynd â'n hegwyddor Llywodraeth agored a'n hegwyddor y bydd rôl a gwaith Llywodraeth Cymru yn parhau i wella trwy gydweithio. Mae cyhoeddi'r drafft hwn yn fan cychwyn ar gyfer cam pwysig yn yr ymgynghoriad agored. Er mwyn annog cynifer o safbwyntiau â phosibl, bwriadwn gynnal amryfal weithdai a digwyddiadau ymgynghori ochr yn ochr â'r ymgynghoriad agored hwn, gan ofyn i bartneriaid Tîm Cymru hwyluso'r broses.

Rydym yn awyddus iawn i wrando ar leisiau newydd, grwpiau lleiafrifol, pobl ag anghenion hygrychedd, unigolion nad ydynt fel arfer yn ymhél â thrafodaethau'n ymwneud â'r hinsawdd, plant a phobl ifanc. Cynhelir rhaglen o ddigwyddiadau ymylol yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru.

Wythnos Hinsawdd Cymru.

Mae ein [Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar gyfer 2022-2026](#) yn ymrwmo i gynnal o leiaf un digwyddiad ymgysylltu cyfunol bob blwyddyn er mwyn adeiladu ar lwyddiant Wythnos Hinsawdd Cymru 2022 a COP Cymru 2021. Bydd Wythnos Hinsawdd Cymru yn cael ei chynnal rhwng 21-25 Tachwedd, yn syth ar ôl cynhadledd fyd-eang nesaf y partiön (COP27). Bydd y digwyddiad ar gyfer eleni yn cynnwys rhith-gynhadledd a fydd yn para 2-3 diwrnod, gan ddwyn ynghyd sefydliadau cyflawni Tîm Cymru a negeswyr dibynadwy i drafod y strategaeth hon ac archwilio rhaglenni cyflawni cydweithredol. Bydd yr wythnos yn cael ei hategu gan raglen o ddigwyddiadau ymylol lle byddwn yn gwahodd partneriaid Tîm Cymru i wneud cais am arian i gyflwyno gweithdai gyda grwpiau targed a gwrando ar eu barn a'u syniadau ynglŷn â sut y gallwn lunio a chyflawni polisiâu a fydd yn effeithio arnynt.

Hwb Digidol Newid Hinsawdd.

Yn gynnar yn 2023 byddwn yn lansio Hwb Digidol Newid Hinsawdd. Anelir y wefan genedlaethol hon at y cyhoedd a bydd yn cynnig ffynhonnell wybodaeth hygrych ac addysgiadol er mwyn cynorthwyo trigolion Cymru i wella'u gwybodaeth am newid hinsawdd. Ei nod fydd cynnig arweiniad dibynadwy ar ddewisiadau y gall pobl eu gwneud (gan nodi lefel effaith y gwahanol ddewisiadau) er mwyn cyfrannu at fynd i'r afael â newid hinsawdd, a bydd yn esbonio'r cydfanteision a ddaw yn sgil y dewisiadau, megis lleihau costau'r aelwyd a gwella iechyd a llesiant. Bydd yr Hwb yn cynnwys offer rhyngweithiol i'r cyhoedd a phecynnau marchnata i bartneriaid Tîm Cymru, ynghyd â chyfeiriadau defnyddiol a fydd yn arwain at ffynonellau gwybodaeth manylach, a hefyd bydd yn ganolbwynt ar gyfer yr ymgyrch newid hinsawdd genedlaethol.

Galluogi

Ymchwil gymdeithasol.

Byddwn yn ategu ein dull seiliedig ar dystiolaeth a ddefnyddir i ddatblygu polisiâu hinsawdd newydd trwy fuddsoddi mewn rhaglen ymchwil gymdeithasol barhaus. Byddwn yn agored ac yn dryloyw gyda'n partneriaid, gan weithio ar y cyd i adeiladu ein sylfaen dystiolaeth a chan ddefnyddio ymchwil ac arbenigedd eang i wella ein dealltwriaeth o fylchau mewn gwybodaeth. Byddwn yn defnyddio ffynonellau deunyddiau cyfoes, yn adeiladu ar ein gwaith ymchwil cydweithredol gyda Llywodraeth y DU ac yn buddsoddi mewn rhaglen a fydd yn mynd i'r afael â'n gwaith ymchwil ni ein hunain ar draws meysydd fel Trafnidiaeth, Tai, Gwaith, Iechyd, Deiet, Adnoddau Naturiol a Defnyddio. Elfen gwbl ganolog o'n rhaglen ymchwil fydd arolwg newydd yn ymwneud ag ymddygiadau ac agweddau tuag at sero net. Bydd yr arolwg

hwn yn cael ei gynnal dros y 3 blynedd nesaf a bydd yn cael ei ddefnyddio i feincnodi a monitro newidiadau yn agweddau ac ymddygiadau cymdeithas. Bydd y gwaith pwysig hwn yn adeiladu ar yr ymchwil aelwydydd COVID-19 (Arolwg Bywyd Bob Dydd): ton 1 ([Ymchwil aelwydydd COVID-19 \(Arolwg Bywyd Bob Dydd\): ton 1 | LLYW.CYMRU](#)) lle crynhoir newidiadau'n ymwneud â'r amgylchedd yn ymddygiad yr atebwyr ers dechrau COVID-19.

Gwyddor ymddygiadol.

O gofio'r cwmpas eang a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â newid ymddygiad ynglŷn â'r hinsawdd, byddwn yn dwyn ynghyd banel o bobl sy'n arbenigo mewn gwyddor ymddygiadol er mwyn ein cynorthwyo i gyflawni'r rhaglen hon. Bydd y panel hwn o arbenigwyr yn ysgogi dull yr ymgyrch newid hinsawdd genedlaethol a bydd yn ein cynorthwyo i ddefnyddio gwyddor ymddygiadol wrth lunio polisiau ar draws meysydd polisi cysylltiedig y Llywodraeth (sef polisiau a fydd yn anelu at gynorthwyo cymdeithas i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd). Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio gyda gwledydd eraill y DU i rannu arferion gorau a chyda phartneriaid Tîm Cymru, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraethau Lleol, a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, sy'n cyflwyno rhaglenni ategol yn ymwneud â newid ymddygiad ynglŷn â'r hinsawdd. Bydd ein Grŵp Newid Ymddygiad ac Ymgysylltu trawslywodraethol yn parhau i lywodraethu'r rhaglen, gan barhau hefyd i sicrhau ein bod yn rhoi dull system gyfan ar waith wrth gyflwyno atebion polisi fel y gellir goresgyn rhwystrau seilwaith a rhwystrau technolegol sy'n atal cymdeithas rhag gweithredu.

Annog

Yr Ymgyrch Newid Hinsawdd Genedlaethol.

Byddwn yn adeiladu ar weithgarwch cyfathrebu sydd eisoes ar waith trwy'r Llywodraeth a hefyd yn allanol gan ein partneriaid, a hynny mewn meysydd fel teithio llesol, bwyta'n iachach, rheoli gwastraff ac ailgylchu, a byddwn yn lansio ymgyrch newid hinsawdd genedlaethol newydd yn gynnar yn 2023. Bydd yr ymgyrch hon yn cynnwys negeseuon cyfathrebu a arweinir yn genedlaethol ac a gyflawnir yn lleol, er mwyn ategu amcanion strategol y strategaeth:

Gwybodaeth – Bydd yr ymgyrch yn meithrin sylfaen wybodaeth well mewn perthynas â newid hinsawdd, o'r cysylltiad sydd rhyngddo â'r ffordd mae pobl yn byw eu bywydau hyd at gredu ei fod yn fater y gallant wneud gwahaniaeth cadarnhaol iddo.

Bwriad – Mewn meysydd lle caiff mesurau awtonomaidd (cymdeithasol, yn bennaf) eu pennu, bydd yn annog pobl i gredu y dylent gymryd camau, eu bod eisiau cymryd camau a'u bod wedi ymrwymo i gymryd camau, a bod ganddynt yr arferion angenrheidiol ar waith i wneud hynny.

Gweithredu – Mewn meysydd lle mae adnoddau ar waith a phan geir cyfle i wneud hynny, bydd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar annog y cyhoedd i weithredu a bydd yn

dangos sut y caiff camau eu normaleiddio eisoes mewn aelwydydd, cymunedau a lleoedd ledled Cymru.

Ar y cychwyn, bydd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar dynnu sylw at ddewisiadau sydd gan y cyhoedd o ran arbed ynni, ymddygiadau teithio, ôl-osod a datgarboneiddio cartrefi, prynu, defnyddio, aildefnyddio ac ailgylchu ac ymddygiadau gwastraffu, ynghyd â chamau i ddiogelu cymunedau a'n hamgylchedd naturiol rhag effeithiau newid hinsawdd. Bydd y cynllun tymor hwy yn canolbwyntio ar ymddygiadau sy'n creu'r effeithiau mwyaf o ran lleihau allyriadau carbon. Bydd rhaglen waith barhaus yn cael ei llunio er mwyn pennu'r ymddygiadau blaenoriaethol y gellir ymdrin â nhw trwy gyfrwng rhaglenni newid ymddygiad, a hefyd er mwyn pennu lefel effaith yr ymddygiadau hyn, gallu pobl i'w rhoi ar waith o fewn y seilwaith cyfredol, a ffactorau eraill fel sensitifrwydd o ran amseru, costau, manteision, a'r cymhellion a'r rhwystrau seicolegol posibl rhag gweithredu. Bydd ein dull yn seiliedig ar ragolwg a chyflwyno pethau'n raddol – er y bydd yn rhaid i'r holl gymdeithas, fwy neu lai, newid ei ffordd o fyw yn sylweddol erbyn 2050, mewn nifer o achosion bydd modd cyflwyno'r newidiadau hyn yn raddol. Er mwyn ennyn cydsyniad y cyhoedd ac ymdrin â phryderon y cyhoedd a'r cyfryngau ynglŷn â graddfa a chyflymder y newidiadau, bydd yn ofynnol inni esbonio sut caiff y newidiadau eu cyflwyno'n raddol a pha fanteision sy'n perthyn iddynt o ran lleihau costau a gwella iechyd a llesiant.

C11: A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud ynglŷn â'r map trywydd cyflawni bras?

Gwerthuso Canlyniadau

Fframwaith Monitro'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd

Byddwn yn defnyddio Fframwaith Monitro Newydd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd i gynnig arweiniad inni ar themâu trawsbynciol pwysig, yn cynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd a ble gallwn wneud gwahaniaeth.

Mae ein Cynllun [Cymru Sero Net](#) yn defnyddio cyngor y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd lle pennir pa mor bwysig yw newid ymddygiad mewn cymdeithas. Fe'i seilir ar gyfres o fodolau lle'r aethpwyd ati i wneud rhagdybiaethau gwahanol ynghlŷn â lefelau'r newid ymddygiadol a'r arloesi technolegol y gallwn ddisgwyl eu gweld.

Mae gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd sylfaen gadarn ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn ei lwybr allyriadau. Mae'r Pwyllgor yn canolbwyntio'n bennaf ar y sector economaidd, ond mae hefyd eisiau ystyried themâu trawsbynciol pwysig, yn cynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd y gwaith monitro'n ystyried dangosyddion newid cynnar yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar olrhain allyriadau. Bydd y Pwyllgor yn monitro'r pethau pwysig yn hytrach na dweud yn unig pa bethau sy'n hawdd eu mesur, a bydd yn defnyddio dull hyblyg wrth ystyried ffactorau allanol a fydd yn effeithio ar gynydd, megis costau byw cynyddol. Bydd mapiau monitro'r Pwyllgor yn ystyried y ffactorau canlynol, ynghyd â'r gyd-ddibyniaeth rhyngddynt:

- Canlyniadau (yn cynnwys dangosyddion mesuradwy ar gyfer pob un)
- Elfennau galluogi (e.e. llywodraethu, arloesi, cyllid)
- Polisi
- Ffactorau cyd-destunol (a fydd, ar y cyfan, yn annibynnol ar bolisi'r Llywodraeth, ond a fydd serch hynny yn bwysig)

Mae gweithredu o fewn cymdeithas yn cyfrannu at yr elfennau hyn o ran lleihau'r galw o du defnyddwyr a throï'n gyflym at ddefnyddio cerbydau di-allyriadau e.e. ar gyfer trafniadaeth arwyneb a'r allyriadau a gynhyrchir. Bydd y gweithgarwch monitro hwn yn cael ei ategu gan fetrigau cymdeithasol allweddol, megis gwell ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a bwriad i weithredu. Nod y mapiau monitro fydd ein helpu ni a gwledydd eraill y DU gyda'r bylchau cyflawni a chynnig arweiniad i Lywodraethau mewn perthynas â ble gallwn wneud gwahaniaeth. Bydd y mapiau'n cael eu cyhoeddi mewn amser real ar ffurf dangosfwrdd o ddangosyddion allweddol. Mae'r Pwyllgor yn dymuno i'r mapiau monitro hyn gael eu defnyddio'n eang. Gweler y fideo hwn lle cyflwynir [Fframwaith Monitro'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd](#).

Ein Methodolegau Gwerthuso

Ein nod yw datblygu fframwaith monitro clir fel y gellir mesur canlyniadau ystyrlon a dangos y cysylltiad rhwng gweithredu o fewn cymdeithas a llwybr datgarboneiddio Cymru, ac er mwyn i bobl allu deall yr effaith a gaiff yr hyn a wnânt ar newid hinsawdd. Byddwn yn pennu dulliau, technegau a gwersi effeithiol, a byddwn yn treialu gwahanol fethodolegau wrth inni feithrin ein gallu.

Bydd gwerthuso effeithiol yn hollbwysig i lwyddiant y rhaglen hon, yn enwedig o ran y cysylltiad rhwng gweithredu o fewn cymdeithas a llwybr datgarboneiddio Cymru. Dyma faes sy'n dal i esblygu, a byddwn yn treialu gwahanol fethodolegau wrth inni feithrin ein gallu. Er mwyn i'r strategaeth hon gael ei chyflawni'n llwyddiannus, bydd angen gweithredu amrywiaeth eang o bolisiau a rhaglenni o dan y tri amcan strategol. Er mwyn inni allu mesur llwyddiant y strategaeth yn ei chyfanrwydd, bydd yn ofynnol cael prosesau cadarn ar gyfer gwerthuso'r amryfal raglenni. Bydd yr holl waith gwerthuso yn bodloni safonau dadansoddi ansawdd a gwerthuso'r llywodraeth. Bydd pob maes angen dull gwerthuso teilwredig a phwrpasol. Ein nod yw datblygu methodoleg a fydd yn ein galluogi i werthuso ymyriadau newid ymddygiad yn effeithiol, a byddwn yn datblygu safonau cyffredin a chyson mewn perthynas â chasglu data – rhywbeth a fydd yn ein galluogi i gymharu canlyniadau gwahanol ymyriadau.

Yn unol â dull Tîm Cymru, byddwn yn cynnwys rhanddeiliaid ehangach yn ein gweithgarwch gwerthuso, a byddwn yn archwilio'u rôl o ran llunio dulliau gwerthuso a chynorthwyo i gasglu data. Er mwyn mesur newid systemig effeithiol, bydd angen i rhanddeiliaid gydweithredu ac ymgynnull er mwyn cyrraedd consensws ynglŷn â dull cyson o werthuso ein rhaglenni ymgysylltu â'r cyhoedd.

Bydd y gwaith o werthuso'r ymgyrch newid hinsawdd genedlaethol (sef agwedd hollbwysig ar y rhaglen) yn cael ei seilio ar [Fframwaith Gwerthuso 2.0 Gwasanaeth Cyfathrebu'r Llywodraeth \(GCS\)](#), a hefyd ar gyfres o amcanion SMART a mewnbynnau ymgyrchu y cytunir arnynt ymlaen llaw. Bydd yr allbynnau, y mesurau haniaethol a'r canlyniadau'n cael eu cofnodi mewn dangosfwrdd canolog, a byddant yn cael eu hadolygu'n barhaus. Y nod fydd troi'r pethau y gofynnir i'r cyhoedd eu gwneud yn gamau mesuradwy clir y gellir eu cysylltu â chanlyniadau ehangach o ran lleihau allyriadau carbon Cymru. Ymhellach, bydd yr effeithiau a fydd yn deillio o weithgareddau'r ymgyrch yn cael eu mesur yn erbyn ymchwil sylfaenol ac ymchwil olrhain barhaus er mwyn pennu newidiadau yn ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r argyfwng hinsawdd, yn ogystal â phennu dealltwriaeth y cyhoedd o'r dewisiadau sydd ar gael iddynt, i ba raddau mae cymdeithas yn ymhél â'r argyfwng hinsawdd ac i ba raddau mae cymdeithas yn ymgorffori'r argyfwng hinsawdd wrth feddwl, gweithio, chwarae a theithio.

Bydd y canlyniadau'n cael eu mesur yn erbyn nodau tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Byddwn yn defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a byddwn yn gweithio gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau ein bod hefyd yn parhau i fonitro effeithiolrwydd ein hymwneud a'n cydweithredu gydag eraill wrth gyflawni'r rhaglen hon.

Byddwn yn ymrwymo i gyflwyno adolygiad canol tymor o'n strategaeth ac adrodd am ein cynnydd cyffredinol tuag at gyflawni ein hamcanion strategol. Hefyd, byddwn yn defnyddio'r cyfle hwn i gasglu adborth gan bartneriaid cyflawni a rhanddeiliaid allweddol – sef adborth ynghylch pa agweddau ar y strategaeth sydd, yn eu barn nhw, yn gweithio'n dda a pha agweddau y gellid eu gwella. Bydd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn cael eu rhyddhau a byddwn yn eu defnyddio i siapio a llywio'r

modd y rhoddwn weddill y strategaeth ar waith. Byddwn hefyd yn rhoi gwerthusiad tymor llawn o'r strategaeth hon ar waith.

Ymchwil Gymdeithasol

Rydym wedi ymrwymo i raglen ymchwil gymdeithasol fel y gellir mynd ati'n barhaus i wella ein dealltwriaeth o wybodaeth, cymhellion a rhwystrau cymdeithasol yn ymwneud â newid hinsawdd.

Byddwn yn defnyddio ymchwil gymdeithasol i wneud y canlynol:

- Canfod pa newidiadau y bydd yn rhaid i bobl eu gwneud er mwyn cyrraedd sero net ac addasu i newid hinsawdd (ac erbyn pryd).
- Nodi sut y gall newid ymddygiad ar wahanol lefelau effeithio ar gostau ac ymarferoldeb y targed o gyrraedd sero net ac addasu i newid hinsawdd.
- Canfod pa agweddau ar gyrraedd sero net ac addasu i newid hinsawdd yw'r rhai mwyaf ymarferol a lleiaf ymarferol i gymdeithas.
- Nodi ym mha ffyrdd mae COVID-19 wedi effeithio ar ymddygiadau sero net ac ymddygiadau addasu, a pha mor debygol ydynt o barhau.
- Nodi argymhellion strategol, argymhellion polisi ac argymhellion yn ymwneud ag ymgysylltu â'r cyhoedd.

Dulliau Ymchwil

Byddwn yn defnyddio amryfal ddulliau ymchwil i adeiladu ar ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn hanfodol o ran llwyddo i gyflawni trawsnewid cymdeithasol gwirioneddol a pharhaol. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ymchwil ac arbenigedd eang er mwyn gwella ein dealltwriaeth o fylchau mewn gwybodaeth, rhwystrau cymdeithasol a chymhellion i weithredu ar y newid ar yr hinsawdd. Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i goladu'r dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli a byddwn yn dwyn y gwaith mapio hwn ynghyd mewn un lle er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch i bob sector.

Byddwn yn defnyddio ffynonellau deunyddiau cyfoes, yn adeiladu ar ein gwaith ymchwil cydweithredol gyda Llywodraeth y DU ac yn buddsoddi mewn rhaglen a fydd yn mynd i'r afael â'n gwaith ymchwil ni ein hunain er mwyn dysgu am ddealltwriaeth, cymhellion a newidiadau ymddygiadol y cyhoedd ar draws meysydd eang fel trafndiaeth, tai, gwaith, iechyd, deiet, adnoddau naturiol a defnyddio. Bydd ein gwaith cyfathrebu hefyd yn bwysig o ran casglu gwybodaeth, a byddwn yn profi'r negeseuon yn fanwl gyda'r cyhoedd er mwyn dysgu'n well pa ddulliau sydd fwyaf effeithiol ar gyfer cyfleu negeseuon cyfathrebu'n ymwneud â'r hinsawdd, fel y gellir taro tant gyda gwahanol gynulleidfaoedd, yn cynnwys ffactorau a allai beri i'r rhain newid dros amser.

Hefyd, byddwn yn pennu bylchau yn ein gwybodaeth i lywio cynlluniau ymchwil blynyddol a byddwn yn sicrhau y caiff y dystiolaeth allweddol a gesglir ei defnyddio i

lywio'r dasg o lunio polisiau yn y dyfodol, fel y gellir goresgyn rhwystrau ffisegol a rhwystrau seilwaith rhag gweithredu. Byddwn hefyd yn defnyddio'r sylfaen dystiolaeth i lywio ein gwaith cyfathrebu a'n gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd.

C12: Sut beth ddylai llwyddiant fod yn eich barn chi, a pha mor rheolaidd – ac ym mha ffordd – y dylem adrodd am y cynnydd a wneir o ran cyflawni'r strategaeth?

C13: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yn ymwneud â'r adran hon?